

ECO'R WYDDFA

RHIF 381

HYDREF 2010

PRIS 50c

Cyfarfod Blynyddol yr 'Eco'

Yn y Sefydliad Coffa,
Llanrug

Nos Fawrth, Tachwedd 16
am 7:00

CARTREF NEWYDD I HEN FAND (IEUANC)



Dadorchuddio plac y Ganolfan Gerdd gan Alun Ffred Jones A.C. ac Avril Jones, Cadeirydd y Band

Mae un o fandiau hynaf Cymru wedi cael cartref newydd ar safle'r hen gwt band a fu'n gartref iddynt ers 1957. Ac ar nos Wener, 24ain o Fedi bu agoriad swyddogol Canolfan Gerdd Seindorf Arian Llanrug. Aelodau'r Band, pwyllgor y Band a gwahoddedigion oedd yn bresennol ar y noson, ond bu diwrnod agored ar y Sul canlynol ble roedd cyfle i bawb o'r pentref gael golwg ar yr adnoddau yn y ganolfan newydd.

Y syndod yw fod yr hen Gwt Band wedi cynnig cartref am gymaint o flynyddoedd a chysidro mai yn ail law y prynwyd yr adeilad pren yn ôl yn 1957. Ond er gwaethaf yr ymdrechion i'w gynnal a'i adnewyddu, roedd ei gyflwr wedi dirywio cymaint erbyn 2007 fel y bu'n rhaid chwilio am opsiwn arall. Derbyniwyd grant ariannol o £115,000 o Gynllun Cymunedol y Cynulliad, ac yn 2008 dechreuwyd ar y gwaith o godi adeilad newydd sbon gan y contractwyr W.F.Clayton.

Yn y cyfamser, roedd y Band wedi prynu llain o dir wrth ochr yr hen safle, ac aed ati i chwilio am fwy o grantiau i greu maes parcio.

Derbyniwyd cyfraniadau ariannol gan Gist Gwynedd, Mantell Gwynedd a Chronfa Degwm Cyngor

Gwynedd. Bu Cyngor Cymuned Llanrug yn gefnogol iawn i'r fenter yn ariannol hefyd, gan gyfrannu'n rheolaidd tuag at y gwelliannau. Gan fod y Band hefyd yn fand swyddogol tref Caernarfon, bu cyngor y dref honno hefyd yn cefnogi'n ariannol. Er mwyn addurno tu mewn yr adeilad, gan gynnwys dodrefnu, bu First Hydro, Llanberis yn hynod gefnogol, a chafwyd llu o roddion ariannol gan nifer helaeth o garedigion y band o bell ac agos. Bu'r pwyllgor hefyd yn brysur yn cynnal gweithgareddau codi arian, a chafwyd cefnogaeth gan Fanc Santander drwy eu cynllun arian cyfartal.

Yn ystod y cyfnod tra bu'r Band yn ddigartref, cynhaliwyd eu pwyllgorau yn Nhafarn Penbont, ac y mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i Wendy a'i staff am y croeso a dderbyniwyd yno. Yn yr un modd, bu'n rhaid cynnal ymarferion yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, a bu'r Prifathro a'r Llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r Band dros y cyfnod hwn. Fel y dywedodd ein Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, yn ei anerkriad, dyma enghraifft dda o gymuned yn closio at ei gilydd i gynnal gweithgaredd sy'n cynnig cyfleoedd cerddorol i blant a phobl ifanc yr ardal. Dyna'r neges hefyd gan Paul

Hughes, Cyfarwyddwr Cerddorol ac Arweinydd y Band. Mae'r Band yn bodoli, meddai, i gynnig cyfle i bobl ifanc yr ardal i ddatblygu eu doniau cerddorol a chael y profiad o fod yn rhan o dim cerddorol yn hytrach nac yn unigolion. Dywedodd fod y pwyslais yn cael ei roi ar hybu a chefnogi yr ieuencid dros y blynyddoedd i ddod, a diolchodd i'r aelodau ifanc am fod mor ffyddlon. Ond rhaid peidio anghofio'r chwaraewyr profiadol hefyd, sydd wedi bod yn asgwrn cefn i'r Band dros y blynyddoedd.

Bu cryn sgwrsio a hel atgofion ar y noson, yn enwedig wrth wyllo'r gyfres o luniau oedd yn dangos hanes y band yn ystod

eu arhosiad yn yr hen gwt pren. Mae lle gan y fro hon i ymfalchio mewn bodolaeth dau fand llwyddiannus - Deiniolen a Llanrug - mewn cyfnod ble bu lleihad sylweddol yn nifer bandiau pres Prydain. Ac y mae'r ddau fand bellach wedi sicrhau cartrefi newydd yn dilyn ymdrechion sylweddol i godi arian. Ond rhaid cofio mai'r gweithgaredd o'r tu mewn i'r adeiladau newydd sy'n bwysig, fel yr adroddwyd yn yr englyn hwn a ddarllenwyd ar y noson agoriadol yn Llanrug:

Cofiwch: ofer yw'r cyfan

- heb synau

Heb seiniau'n eich caban;

Nid aur ond nodau arian,

Nid y moeth ond cyfoeth cân.

LANSIO LLWYBRAU LLANRUG



Ddechrau Medi cynhaliwyd noson lwyddiannus eithriadol yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug, pryd cafodd taflenni *Troedio Llwybrau Llanrug a Chwm y Glo* eu lansio'n swyddogol. Llywyddwyd y noson gan Goronwy Hughes, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, a fu'n gyfrifol am geisio grantiau i ariannu'r cynllun. Yn ei ddull dihafal ei hun, ac yn llawn hiwmor, cafodd y gynulleidfa eu diddori a'u diddanu gan Gareth Roberts a fu'n gyfrifol am gynllunio'r daflen. Roedd hi'n syndod i amryw fod Post Llanrug yn bod hyd yn oed yn ystod Oes y Rhew! Cafwyd awgrym hefyd fod gwersyll Rhufeinig dros-dro o bosibl ar y

tir rhwng y Sefydliad Coffa a chaeau Ysgol Brynrefail. Ac erbyn hyn mae pawb o'r gynulleidfa yn gwybod nad Castell Bryn Bras yw'r unig gastell o fewn plwyf Llanrug. Rhaid i chwi ddarllen y daflen i gael gwybod mwy.

Yn dilyn paned a chacen, treuliwyd ail hanner y noson mewn sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Dafydd Whiteside Thomas, a fu hefyd yn cyfrannu tuag at y daflen.

Mae'r fro bellach yn gallu brolio fod tair taflen wybodaeth am lwybrau cyhoeddus yn bodoli - Llanddeiniolen, Llyn Padarn a Llanrug/Cwm y Glo. Beth amdani weddill y dalgylch?

ECO'R WYDDFA

RHIF 381

HYDREF 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 17 HYDREF

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 28 HYDREF

Dyddiad Gosod
Nos SUL, 24 HYDREF
Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Tachwedd	Hydref 17	Hydref 28	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 21	Rhagfyr 2il	Caethro
Nadolig	Rhagfyr 5	Rhagfyr 16	Ysgol Brynrefail

Llythrau

52, Gainford Rise,
Coventry,
West Midlands,
CV32RW.

Ffôn:: 02476268231
07941582844

Annwyl Olygydd,
Y mae cryn amser wedi mynd
heibio ers pan oedd Miss Ira
Walter Jones yn dysgu yn ysgol
Dolbadarn. Yr oedd yn fy nysgu
i pan oeddwn tua pump neu
chwech oed, felly mae'n rhaid
mai tua 1946/7 yr oedd yno.
Rwyf yn dal i gofio y dosbarth
gyda diagrams i ddehongli
termau miwsig - 'ta-te, taa,
taffeta-ta' ar y wal. Rwy'n cofio y
gwersi a'r band 'percussion', a
dysgu'r emyn 'Cysegrwn
flaenffrwyth ddyddiau foes' etc.
Nid oedd gennyf syniad beth
oedd y geiriau yn eu golygu!

Aeth llawer o flynyddoedd
heibio, a minnau erbyn hyn yn
athrawes fy hun yng
Nghoventry. Cefais fy anfon i
Ganolfan Athrawon Elm Bank
yn y ddinas i ddysgu rhoi gwersi
recorder i blant rhywdro tua
1969. Peth syn i mi oedd i
rywun oedd yn eistedd y tu ôl i
mi daro fysgwydd a gofyn,
'Olwen Rees ydach chi
deudwch?'

Bûm yn cysylltu ag Ira lawer
tro ers hynny. Byddai wrth ei
bodd sôn am yr hen ardal, ac yn
enwedig Aberdaron lle y bu'n
byw yn ystod ei phlentynod.

Daeth Ira i Coventry yn
ystod y rhyfel, ac yr oedd yma
trwy y Blitz. Y peth od i mi
oedd ei bod yn dysgu yn yr un
ysgol ag oeddwn i yn dysgu, sef
ysgol o'r enw Walsgrave, cyn i
mi gael fy ngeni!

Dychwelodd i Ddinorwig ar
ôl y rhyfel, a dyna'r amser y
daeth i Ysgol Dolbadarn. Nid
arhosodd yno yn hir gan iddi
fynd yn ôl i Coventry unwaith
eto. Rwy'n meddwl iddi adael
dan gwmwl du, ond roeddwn yn
rhy ifanc i ddeall pethau fel yna
yr adeg honno.

Cefais yr hanes i gyd gan Ira,
ac y mae yn awr yn byw gyda'i
merch, Gillian, sydd hefyd yn
athrawes. Mae iddi bedair wyres
sydd wedi gwneud yn hynod o
dda yn yr ysgol, ac yna y bedair
wedi mynd drwy brifysgolion
amrywiol.

Byddai Ira wrth ei bodd yn
mynd i gemau pêl-droed tîm
Coventry. Roedd yn 'avid fan' o'r
Sky Blues. Byddai'n mynd i bob
gêm, adref neu i ffwrdd. Cafodd
surpreis pan oedd yn 90 oed -
cafodd anrheg gan y clwb o
flodau hardd, a hyn o flaen y
cefnogwyr i gyd.

Llawer o weithiau yn ystod y
blynyddoedd diwethaf byddai
Ira yn fy ffonio i ofyn os y
buaswn yn gallu mynd â hi i'r
gêm, yn aml iawn roedd y gêm
ymhell oddi yma. Wrth gwrs,
roedd yn rhaid imi ddweud na
fuaswn yn gallu mynd.

Byddai Ira yn hoff iawn o
chwarae Bingo hefyd. Byddai yn
mynd gyda'i merch yn aml
iawn.

Fe stopiodd y ffôn tua'r
Nadolig diwethaf. Dim gair gan
Ira. Dechreuais betruso a
meddwl pam. Fe'i ffoniais, ond
nid oedd yn fy adnabod.
Penderfynais alw i weld Gillian,
y ferch, a dywedodd wrthyf fod
Ira yn yn dioddef o'r clefyd
Alzheimers.

Roeddwn yn drist iawn o
glywed hyn, a meddyliais y
buasai rhai o'i chyn-ddisgyblion
yn hoffi clywed amdani.

OLWEN EBBRELL

RHODDION

£20: Er cof am John Owen,
Hafod y Rhos, Llanrug;
Dylan ac Anwen a'r teulu er
cof am Nancy Jones,
Meillionydd, Penisarwaun.

£10: Bessie Ellis, Bethel; Er
cof am Mary Madoc Jones,
Bethel; Er cof am Mrs Mary
Christina Jones, 17 Glan
Moelyn, Llanrug; M. Lewis,
33 Hafod Oleu, Deiniolen;
Er cof am Arthur Evans,
Cynlas, Llanberis; Fred a
Beth Owen, Carregwen,
Llanberis.

Derfel ac Anita Owen, gynt o
(Stryd Yr Wyddfa,
Llanberis).

£5: Mary Evans a'r teulu, 3
Bro Eglwys; Gwyn a Haf
Williams, Ty'n y Coed,
Llanrug; Mrs Emsul Jones,
15 Bro Waun, Waunfawr;
Catherine Williams, 6 Rallt
Goch, Llanberis; Gwyneth
Roberts, Sŵn Y Gwynt,
Ffordd Padarn, Llanberis.

PERTHYN Cyfres deledu newydd sbon

Rondo Media, 60 Severn
Grove, Caerdydd, CF11 9EP
Annwyl Ddarlleneydd

Tybed a oes stori ddifyr yn
hanes eich teulu chi? A
hoffech chi ddarganfod mwy
am berthynas ddiddorol yn
eich teulu?

Mae Rondo Media, gyda
chymorth Llyfrgell
Genedlaethol Cymru, yn
chwilio am eich straeon
teuluol ar gyfer cyfres
PERTHYN ar S4C. Mae
Perthyn yn gyfres newydd
sbon ar hel achau, fydd yn
eich helpu i ddarganfod mwy
am eich gwreiddiau.

Does dim ots faint o
wybodaeth sydd gennych yn
barod, cysylltwch â chriw
cynhyrchu Perthyn yn Rondo
Media drwy ebost:
perthyn@rondomedia.co.uk,
ffôn: 02920 223456 neu lythyr
at y cyfeiriad uchod.

Cysylltwch â ni nawr
gyda'ch hanesion ac
ymunwch â ni yn Sioe
Perthyn rhwng 12 a 5pm
ddydd Sadwrn, 30 Hydref, yn
Llyfrgell Genedlaethol
Aberystwyth lle bydd cyfle i
ddysgu mwy am sut i fynd at i
chwilota'ch hanes teuluol.

Os am archebu tocynnau
yn rhad ac am ddim ar gyfer
Sioe Perthyn a cysylltwch â
swyddfa Rondo Media ar y
rhifau uchod.

Llawer o ddiolch

CARYL EBENEZER A
LUNED PHILLIPS
Tim Cynhyrchu

Y BWTHYN TÊ pen y ceunant isaf LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN

DIDYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbwl)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

**Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill**

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Annwyl Olygydd

Galw ar drigolion y fro i gymryd cam i helpu'r plant

Cerdded, rhedeg, dawnsio neu chwarae - gwnewch i'ch camau chi gyfrif yr hydref hwn.

Cynhelir Cymryd Cam (Take a Step), digwyddiad codi arian diweddaraf elusen Achub y Plant yn ystod yr wythnos 2 i 10 Hydref 2010. Rydym yn galw ar drigolion eich bro i gymryd camau cadarnhaol - boed fawr neu fach - i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau plant.

Bob dydd mae plant ar draws y byd yn gorfod cerdded milltiroedd i gael bwyd, dwr glân neu loches. Yma yng Nghymru, y DU a thramor mae'n rhaid i blant gymryd camau anodd dim ond i oroesi.

Ar gyfartaledd mae person yn cymryd 3,500 o gamau'r dydd neu tua 25,000 mewn wythnos. Mae Cymryd Cam felly yn ffordd wych o gadw'n heini a chodi arian at achos gwerth chweil ar yr un pryd.

Pan fyddwch yn cofrestru byddwn yn anfon mesurydd camau (pedometer) atoch fel y gallwch gofnodi eich camau ym mha bynnag weithgaredd y byddwch yn ddewis ei wneud.

Dyma rai syniadau er mwyn eich helpu i gymryd cam i'r cyfeiriad cywir yng nghwmni ffrindiau, y teulu neu gydweithwyr:

Ar eich pen eich hun

Heriwch eich hunan i gerdded nifer benodol o gamau mewn wythnos a holwch i bobl eich noddi i gyrraedd eich nod. Gallwch wneud hyn drwy gerdded i'r gwaith ac adref bob dydd; cyfrwch eich camau yn y gampfa; cerddwch i fynyr grisiau yn hytrach na chymryd y lifft. Gallwch hefyd ofyn i'ch ffrindiau eich noddi i redeg nifer penodol o filltiroedd neu i ddringo mynydd/oedd.

Gyda ffrindiau, teulu a chydweithwyr

Oes gennych gêm gyfrifiadurol fel Wii Sport sy'n segur yn y cwpwrdd? Beth am godi tâl ar eich ffrindiau i gymryd rhan mewn cystadleuaeth yn eich ystafell ffrynt a dyfarnu'r enillydd? Neu beth am drefnu dosbarth ddawnsio neu dwrnamaint pêl-droed 5-bob-ochr neu unrhyw gystadleuaeth chwaraeon eraill?

Am fwy o syniadau a gwybodaeth ar sut i gofrestru a derbyn eich mesurydd camau am ddim ewch i www.savethechildren.org.uk/takeastep neu ffoniwch 029 20 803252 neu ebostiwch j.evans@savethechildren.org.uk

Os nad yw'n bosib i chi gymryd rhan rhwng 2-10 Hydref mae'n bosib trefnu gweithgaredd gydol Hydref a

NOSON Y CORAU



Côr Meibion Llanfair-ym-Muallt gyda Luned Jones (Arweinyddes) ac Ann Bufton (Cyfeilyddes).

Nos Wener, Hydref 15ed Cynhelir 'Noson y Corau' yn y Mynydd Gwefru, Llanberis i gychwyn am 7.30 yh.

Gan fod aelodau Côr Meibion Llanfair-ym-Muallt (Powys) wedi trefnu i dreulio penwythnos yn y gogledd i fwynhau golygfeydd godidog

Dyffryn Peris a'r cylch, manteisiwyd ar y cyfle i'w cael i gynnal noson o ganu yn Llanberis. Mae tri chôr arall wedi cytuno i rannu llwyfan Y Mynydd Gwefru gyda hwy: Cor Meibion Dyffryn Peris; Cor Merched Lleisiau Lliwedd a Pharti Plant Ysgol Dolbadarn.

Dyna wledd o ganu am y pris rhesymol o £5 i oedolion a £3 i blant a phensiynwyr! Bydd elw'r noson yn mynd i'r Ambiwlans Awyr.

Ffurfiwyd côr presennol Llanfair-ym-Muallt neu Côr Builth fel y'i gelwir, yn ystod gaeaf 1968-69, ond mae corau wedi bod yn yr ardal ers dros gan mlynedd. Jack Francis oedd yr arweinydd cyntaf ac wedi iddo ymddeol yn 1984 cymerwyd ei le gan ei gyfeilyddes, Luned Jones, sydd yn dal wrth y llyw bum mlynedd ar hugain yn ddiweddarach.

Mae aelodaeth y côr yn 55 ar hyn o bryd ac maent yn ymarfer bob nos Lun ag eithrio Mis Awst. Union batrwm ymarferiadau Côr Dyffryn Peris! Mae'r côr wedi cefnogi achosion da led led Powys a thros Glawdd Offa, ac wedi ymddangos, ynghyd â chorau eraill, mewn nifer o gyngherddau 'Mil o Leisiau' yn Neuadd Albert Llundain. Maent wedi ymddangos mewn cyngherddau yn yr Alban, Iwerddon a chyfandir Ewrop.

Mae Luned, Ann Bufton a'r côr yn edrych ymlaen i gael canu yn Llanberis. Does ond gobeithio y daw nifer fawr o drigolion Dyffryn Peris a chylch ehangach draw i gefnogi'r noson a'r achos.

BORE COFFI NYRSUS McMILLAN YN SEFYDLIAD COFFA LLANRUG



Aelodau yn mwynhau eu paned

Thachwedd ac yna anfon yr arian at Jessica Evans, Achub y Plant, 3ydd Llawr, Phoenix House, 8 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ.

Yn gywir

JESSICA EVANS
Swyddog Codi Arian Achub y Plant - Rhaglen Cymru

SKODA
BMW
PEUGEOT
FIAT

AUDI
SEAT
Porsche
VOLKSWAGEN

DIESEL
PETROL
CHWISTRELLIAD
ARBENIGWYR

MEWNFORIO
YR ALMAEN
UNIONI OLWYNION CAM BELTS
TRYDANOL
SWEDEN

•Cymhwyter•
BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Shell
HELIX
MOTOR OIL

ATA

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei ffordio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

ABS
AIR CON
VOLVO

Gwasanaeth
i'r Car
Gwasanaeth
BATRIS
MERCEDES

BOSCH Service
OFT
SAAB

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PWYLLGOR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, ERYRI 2012.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor ddiolch am yr ymateb da i'r ffurflenni nawdd, ond mae swm sylweddol eto i'w gasglu cyn cyrraedd y nod o £5,000. Os dymuna unrhyw un gyfrannu drwy'r ffurflen nawdd, bydd aelodau'r Pwyllgor yn fwy na pharod i alw neu gellir ei hanfon i'r Trysorydd, Elizabeth Jones, 17 Bryntirion. Ffôn: 872421, neu Carys Williams, Meini Gleision, Brynrefail, Ffôn: 871754.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Dros y misoedd diwethaf cafwyd nifer o weithgareddau pleserus. Yn ystod mis Gorffennaf bu'r aelodau ar daith ar Reilffordd Ucheldir Cymru o Gaernarfon i Lanfrothen gan fwynhau golygfeydd arbennig iawn. Aethpwyd ymlaen i Feddgelert ar y bws a chael pryd o fwyd ardderchog yng Nghaffi Gwynant ac yna cwblhau'r daith gartref dros Fwlch Llanberis.

Cymerodd yr aelodau hefyd ran mewn cystadlaethau yn Sioe Gogledd Cymru Caernarfon gan ddod yn fuddugol yn yr arddangosfa grŵp dan y pennawd, 'Eryri'.

Yng nghyfarfod mis Medi talwyd ymweliad â'r Llyfrgell yng Nghaernarfon. Treuliwyd noson ddiddorol yn gwrando ar rannau hwyliog o dri llyfr tra'n mwynhau blasusfwd a gwydriad bach o win. Noson wahanol a phleserus dros ben.

YN YR YSBYTY Mae Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian, wedi treulio cyfnod o waeledd pur ddrwg yn Ysbyty Gwynedd ac wedi bod yn yr Adran Gofal Dwys. Da deall ei bod yn gwella

yn raddol. Dymunwn adferiad buan i chwi, Euronwy, ac y byddwch yn cryfhau wedi dod gartref.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Cadeiriwyd y cyfarfod nos Iau, Medi 16eg, gan Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Roedd yn bleser ganddo gyflwyno Eluned Davies, un o Gyfarwyddwyr y Caban, i roi sgwrs. Cyfeiriodd at ei hymroddiad diflino yn ei gwaith arbennig ynglŷn â datblygiad a llwyddiant Y Caban.

Cafwyd gan Eluned adroddiad bywiog a gogleisiol o'i gyrfa a'i dawn amlwg ynglŷn â llwyddiant ei Chynlluniau Busnes.

Gwerthfawrogwyd ei chyfraniad yn fawr iawn a'i gwaith caled yn y Caban ym Mrynrefail.

Bydd y cyfarfod nesaf, sef yr un olaf, am 2010 bnawn Mawrth, Hydref 12fed, pryd y bwriedir ymweld â Chanolfan Nant Gwrtheyrn.

OEDFAON HYDREF

- 3: 5.30: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
10: 5.30: Parch W.R. Williams, Y Felinheli. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
17: am 5.30: Oedfa Ddiolchgarwch dan arweiniad Y Parch Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon
24: 2.00: Parch Eric, Jones, Bangor
31: 5.30: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel.

NANT PERIS

DYMUNA Erin Welsby ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'r ardal am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar achlysur bod yn Frenhines y Carnifal. Diolch i'r pwyllgor a phawb am wneud ei diwrnod yn un bythgofiadwy.

PARTI CABAN



Dydd Sadwrn y 4ydd o Fedi, daeth nifero blaent ac oedolion ynghyd i'r Caban ym Mrynrefail i gymryd rhan ym mharti'r pentref.

Ymysg yr aml weithgareddau cafwyd helpa drysor, mabolgampau, Y Bwrdd Mawr Celf, gwisg ffansi, peintio wynebau, gosod blodau ac wrth

gwrs y prif ddigwyddiad sef y Ras Falwod.

Tra roedd yr holl weithgareddau yma ymlaen, cafwyd picnic enfawr ac adloniant gan y grŵp gwerin Mooncoin a Tom Elias. Hoffa Rheolwyr a Staff Y Caban ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y dydd.

CYNGERDD rhad ac DDIM i grochawu

Evelyn Calcabrini o Borth Madryn Y Wladfa
Yng Nghapel Rheoboth
Nant Peris am 7.30yh
AR DDYDD GWENER 1af. o HYDREF 2010

Y ddeusawd poplogaidd
MONHELI
ac artistiaid eraill

Ar y diwedd pwynt cysgud i helpu **Pobol Froderol y Mapoche** ym Mhatirgenda
Gwladol Arian
Reynaldo Mariquez o "Cystallt Ryngwladol y Mapoche" Bryste, Lleogr
Rheolwr o wybodaeth: alan@talktalk.net Ffôn Symudol- 07718962732

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunogopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED.
Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn Y Ganolfan, Y Waunfawr nos Fercher, 1 Medi. Roedd y Cyngorwyr Cadi Gwynedd a Clive James yn bresennol.

Nodwyd fod Clwb Merched Caeathro wedi diolch i'r Cyngor am eu rhodd ariannol. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi caniatáu estyniad llawr cyntaf i Dremallt. Archwiliwyd copi o fap a gyhoeddwyd gan Gyngor Cymuned Llanrug sy'n dangos teithiau cerdded wedi eu seilio ar lwybrau cyhoeddus. Mae un daith yn dechrau ger Eglwys St Mihangel ac ymlaen i Brysgol a Chaeathro gan dychwelyd heibio Tŷ Gwyn i Lanrug.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 11 Hydref am 7.15 yn Y Ganolfan, Y Waunfawr. Dylid anfon ceisiadau am roddion ariannol i'r Clerc, Tŷ Awellog, Waunfawr erbyn 4 Hydref.

PEN-BLWYDD O BWYS.
Llongyfarchiadau i Geraint Bowen, Stad Glandŵr, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 95 mlwydd oed ddechrau'r mis. Mae ef a'i wraig, Zonia, yn cael gwerth eu harian o'r pasys bys am ddim i Gaernarfon bob bore dydd Sadwrn.

BEDYDD. Ar ddydd Sul, 5 Medi, bedyddiwyd Elin Fflur, merch Aaron a Nicola Evans, gan y gweinidog, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Evena Hughes, Gwendraeth, ar farwolaeth ei brawd, Garim, yn Y Groeslon ddiwedd mis Awst.

SIOE AMAETHYDDOL MÔN. Llongyfarchiadau i Matthew Barrett ac Owain Rhys Owen, Tai Glangwna, ar ennill yn y Sioe gyda'r ceiliog gorau. Roedd Dafydd Iwan yn beirniadu selsig gyda Elin Fflur ar stondin Undeb Amaethwyr Cymru.

ADREF O'R YSBYTY. Yn

anffodus, mae nifer wedi cael rheswm i aros mewn un o ysbytai'r fro, felly croeso adref i Bobby Owen, Hugh Jones, Ifor Hughes, Iona Ceiriog ac Eirlys Pritchard.

TYNFA MISOL. Enillwyd Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Medi oedd: £40: (85) Owain Williams, Tai Glangwna; £25: (102) Llio Jones, Glanrafon; £15: (110) Anna Williams, Cefn Gof; £15: (44) Dewi Magwa, Penrhos.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO.
Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol nos Lun, 20 Medi, ym Mryn Gwna a siomedig iawn oedd presenoldeb aelodau'r gymuned. Ymhlith y sawl oedd yn bresennol, etholwyd Clive James fel Cadeirydd a Richard Jones fel Trysorydd.

Ar y pwyllgor, etholwyd Norman Hughes, Dewi Jones, Wyn Jones, Huw Ceiriog, Alun Roberts ac Eryl Jones. Mae gan y Pwyllgor hawl i gyfethol aelodau ychwanegol. Cyflwynwyd y Fantolen gan y Trysorydd a derbyniwyd y cynnwys gan y cyfarfod. Gellir gweld y Fantolen ar hysbysfwrdd y pentref.

CYMDEITHAS EDWARD LLWYD. Bydd Cymdeithas y naturiaethwyr Cymraeg yn cynnal taith ar 9fed Hydref gan gychwyn am 10.30 o faes parcio Tafarn Bryn Gwna. Bydd cyfle i gwrdd a dysgu am fywyd gwyllt y fro wrth gerdded y llwybrau cyhoeddus i gyfeiriad Prysgol ac yn ôl. Croeso i bawb, aelodau'r gymdeithas neu beidio.

LLWYDDIANT.
Llongyfarchiadau mawr i Hefin a Tegwen Hughes, Argoed, Rhosbodrual, ar gwblhau'r Great North Run mewn amser canmoladwy. Llauer o ddiolch i bawb am eu nawdd gan gyfrannu tuag at Scope.



Clwb Merched Caeathro ym Mharc y Dre adeg eu gwibdaith ddiwedd tymor 2009/10.

GWASANAETHAU'R CAPEL.
Croeso i bawb fynychu'r oedfaon a'r Ysgol Sul canlynol yn ystod mis Hydref.

3: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Trefor Jones
10: 11.00 Ysgol Sul

17: 10.00 Dr Tudor Ellis
11.00 Ysgol Sul
24: 2.00 Gwasanaeth o Ddiolchgarwch ar gyfer y gymuned i gyd dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

O LWYFAN I LWYFAN

Yn y llyfr *O Lwyfan i Lwyfan*, a gyhoeddir ddiwedd Hydref, mae Peter Hughes Griffith nid yn unig yn adrodd yn ddifyr iawn am ei brofiadau'n ymddangos ar lwyfannau ar hyd a lled Cymru, ond mae e hefyd yn sôn am y llwyfannau eraill sy'n rhan o'i fywyd llawn a phrysur.

Mae'r llwyfannau rheini'n amrywio o lwyfannau gwleidyddol, gan adrodd storiâu difyr a diddorol am Gwynfor Evans ac eraill, i lwyfan byd y bêl-droed pan sgoriodd Peter i dim Abertawe.

Mae'r hunangofiant hwn yn wahanol i'r rai arferol gan fod Peter yn ymdrin â phob un o'r llwyfannau hyn ar wahân, gan gynnwys storiâu digri a throeon trwstan rif y gwllith wrth gronico'r hanes.

Fel y tro hwnnw pan gychwynnodd Peter a'i fam yn Ysgol Gynradd Penboyr, y ddau am y tro cyntaf - a hynny ar yr un diwrnod!

A'r sefyllfa anodd honno pan ofynnodd Bob Owen Croesor iddo ddod gyda fe i'r tŷ bach am na allai agor botymau ei falog, ac am y botel stowt yn syrthio a thorri'n deilchion ar y palmant wrth draed y gweinidog nes bod ei drowsus a'i esgidiau yn drewi o gwrw!

Ochr yn ochr â'r digri ceir y difrifol ac fe geir darlun llawn iawn o fywyd amrywiol dros ben yr arweinydd Noson Lawen hwn.

Cyhoeddir *O Lwyfan i Lwyfan* gan Y Lolfa a'i bris yw £9.95. Heb os fe gaiff pawb gryn foddhad wrth ddarllen y gyfrol wahanol a llawn lluniau hon sydd ar werth yn y siopau o ddiwedd mis Hydref ymlaen.

*Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwr*



Blodau Lieneke
Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau
Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN
Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CHWILOTA

TAMEIDIAU I'W PROFI



Y mochyn oedd cynhaliaeth y teulu cyffredin am ganrifoedd. Roedd y cwt mochyn yn rhan hanfodol o bob gardd bron, hyd yn oed o fewn y pentrefi. Câl'r mochyn ei fwydo â sbarion bwydydd yn ystod y flwyddyn, ac yr oedd rhai yn cael eu gollwng yn rhydd mewn perllan neu goedlan i borthi ar afalau, gwreiddiau, cnau a mes nes iddynt dewhau ar gyfer y lladd. Yr un oedd y patrwm drwy holl wledydd Ewrop, ond fod enwau a thraddodiadau gwahanol yn perthyn i bob gwlad. Yr hanfod pwysicaf ar gyfer cadw'r cig dros fisoedd y gaeaf oedd halen, a doedd dim un rhan o'r mochyn yn cael ei wastraffu. Yn wir, mae un hen ddywediad yn honni mai'r unig ran o'r mochyn na ddefnyddir yw ei wich!

Y cigoedd pwysicaf oedd bacwn a ham. Bacwn oedd y cig rhataf a mwyaf poblogaidd i werin Ewrop am ganrifoedd. Dywed William Ellis, a ysgrifennodd lyfrau ar amaeth a gwelliannau glendid cartrefi yn y ddeunawfed ganrif, 'does dim angen os oes bara a bacwn gan y teulu.' Roedd cynhyrchu bacwn yn fasnachol wedi cychwyn mor gynnar â 1770, ond mai gweddol yn unig oedd ei ansawdd. Er hynny, roedd William Ellis yn grediniol fod bacwn yn gig gwerth i'w gael i'r boblogaeth, boed gyfoethog neu dlawd.

Roedd lle ham o fewn y fwydlen fymryn yn wahanol. Yn ôl traddodiad o fynyddoedd y Pyrenees, disgynnodd mochyn i ffynnon o ddŵr halen a boddi. Pan ddarganfu'r bugeiliaid moch y corff a'i dynnu allan, cawsant eu synnu pa mor flasus oedd y cig, yn enwedig y cluniau, sef yr ham. Dyma'r rhan fwyaf gwerthfawr o'r

mochyn, ac yr oedd teuluoedd tlodion yn aml yn gorfod gwerthu'r ham er mwyn cael arian i brynu halen i halltu gweddill y cig.

Ond nid o gig moch yn unig roedd ham i'w gael, er mai dyna ein syniad ni erbyn heddiw. Ers talwm, roedd ham i'w gael o biff. Yn 1747 cyhoeddwyd *The Art of Cookery made Plain and Easy* gan Hannah Glasse, ac yr oedd hi'n argymhell biff Cymreig ar gyfer gwneud yr ham gorau, a hwnnw'n dod o 'the leg of a fat but small beef.'

Yn Cumbria roedd defaid Herdwick yn cael eu lladd er mwyn cynhyrchu ham, ac yr oedd lloi a gwyddau yn cael eu defnyddio hefyd. Yn wir, gyda'r holl sylw a roddir ar hyn o bryd i atal TB mewn gwartheg, a'r cynlluniau i ladd moch daear, mae'n ddiddorol nodi fod cig yr anifeiliaid rheini yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ham yn y ddeunawfed ganrif.

Yng Nghymru hefyd câi ham ei gynhyrchu o gig geifr, a'i alw'n gig carw'r graig. Roedd ham o'r fath yn felys. Tybed ai'r un peth ydoedd hwn a Coch yr Wdan, a swniai ar lafar fel Coch y Rwdan, a rhoi'r argraff hollol anghywir mai rhyw fath o fwyd wedi ei wneud o rwdan ydoedd? Gyda llaw, mae Bwlch yr Wdan yng nghreigiau'r Fachwen, rhwng yr ardal honno a Chlwt y Bont. Wdan oedd yr hen enw ar garw ifanc. Byddai'n ddiddorol gwybod faint o gig gafr a gâi ei fwyta ers talwm dan yr argraff mai cig carw ydoedd.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod Stad y Faenol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif wedi gwahardd ei thenantiaid rhag cadw geifr, ac i lawer o'r geifr

Ysgol Bryn Eryr, Llanrug



Dyma ddau lun o ddisgyblion hen Ysgol Bryn Eryr, Llanrug, ond does dim enwau ar gael. Mae'r dyddiad 1886 ar gefn un o'r lluniau.

rheini gael eu gollwng yn rhydd i'r mynydd-dir. Disgynyddion y geifr hyn sy'n creu poendod i drigolion Llanberis a'r Nant heddiw!

Pwy oedd Ioan Glan Rhyddallt?

Roedd Glan Rhuddallt, sef y diweddar Isaac Lloyd, Llys Awen, Llanrug yn ddigon adnabyddus i'r genhedlaeth hyn oherwydd ei erthyglau wythnosol yn *Yr Herald Cymraeg*. Ond does gen i ddim gwybodaeth o gwbl am Ioan Glan Rhyddallt, ar wahân i'r ffaith iddo farw ar y 6ed o Orffennaf 1882. Ei enw oedd John D. Jones, ac yr oedd yn fab i John Jones, Cefn y Coed,

Llanrug. Oes rhywun yn gallu ychwanegu mwy o wybodaeth amdano?

Darganfod y Garreg Hetar

Dyna'r nodyn oedd wedi ei roi drwy'r drws fel roedd y golofn hon ar fin cael ei hanfon i'w theipio. Gareth Roberts sy'n dweud ei fod wedi darganfod y garreg a ddefnyddid i hollti afon Marchlyn fel bod y dŵr yn cael ei rannu rhwng plwyfi Llandegai a Llanddeiniolen mewn lle o'r enw Rhanid y dŵr. Bydd y ddau ohonom wedi bod i fyny yng nghyffiniau'r marchlyn erbyn y mis nesaf, a chawn wybod mwy am y darganfyddiad.

Lluniau Llanrug

Un ymateb yn unig, a hwnnw o bellafoedd Lloegr. Elwyn Williams o Cranleigh, Surrey (Lôn Las, Crawia, gynt), gysylltodd yn dweud mai Miss Roberts, Glasgoed, a welir yn y llun ac nid Miss Williams. Dywed mai Mary oedd ei henw cyntaf a'i bod yn chwaer i Huw Roberts, fferm Glasgoed, a roes fenthyg cae i fechgyn yr ardal gael chwarae pêl-droed arno, a galw eu tîm cyntaf yn Glasgoed Rangers. Dyna godi sgwarnog arall o bosibl. Diolch am eich ymateb.

A dyna'r cyfan am y tro. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515) ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r 'Eco'.



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DYMUNA Mary, 33 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau am y cymorth a gafwyd yn y brofedigaeth o golli Owie, gŵr, tad a thaid cariadus. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau i'r cartref a'r rhoddion a gafwyd tuag at Feddygfa Llanberis ac Ysgol Pendalar. Diolch hefyd i'r meddygon ac i'r nyrsys am eu gofal diflino. Diolch hefyd i'r Parchedig Robert Townsend am ei gymorth. Hefyd diolch i Dylan Griffith, Cyfarwyddwr Angladdau, am y trefniadau tawel a gofalus. Diolch yn fawr. **MERCHED Y WAWR.** Erbyn i'r rhifyn yma o'r Eco ddod o'r wasg bydd aelodau o'r gangen wedi bod ar ymweliad â Glynllifon i gerdded y llwybrau a chael gweld y gerddi, gyda Mr Gwynedd Jones yn eu tywys o

gwmpas ac yn rhoi dipyn o hanes y lle iddynt. Ymlaen â phawb wedyn am Ddinas Dinlle i gael pryd o fwyd blasus yn Bwyty Lleu. Croesawyd pawb o'r aelodau gan y Llywydd a chydymdeimlwyd â Mona oedd wedi cael profedigaeth o golli ei merch-yng-nghyfraith yn ddiweddar. Hefyd llongyfarchwyd rhai o blant y pentref sydd wedi cael llwyddiant mewn gwahanol feysydd.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Tŷ Elidir ar nos Lun, 18 Hydref, am 7.00 o'r gloch. Os oes unrhyw un yn awyddus i ymaelodi â'r gangen o'r newydd bydd croeso cynnes i chwi ddod i'r cyfarfod hwnnw ac yn sicr, wnewch chi ddim difaru. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu ar gyfer y tymor a bydd rhywbeth at ddant pawb.



Côr Meibion Dyffryn Peris yn croesawu Mair Martinez o Sbaen. Tynnwyd y llun yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

DIOLCH. Dymuna Alwena Thomas, 8 Rock Trc, ddiolch i'w chymdogion, teulu a ffrindiau am eu dymuniadau da yn dilyn ei hymweliad â Ysbyty Glan Clwyd.

CYMDEITHAS UNDEBOL LLANBERIS. Bydd Noson Agoriadol y Gymdeithas am y tymor, ar nos Fawrth, y 12fed o Hydref, am 7yh yn Festri Capel Coch, Llanberis.

Cawn ein diddori ar y noson gan 'Y Glaslanciau' o ardal Porthmadog. Bydd lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Croeso cynnes i bawb ddod yn aelodau, pris aelodaeth yw £5 am y tymor. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei pharatoi ar eich cyfer. Dowch i fwynhau, cymdeithasu a chael paned.

DIOLCH. Dymuna Catherine, 6 Rallt Goch, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a gafodd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCHIADAU. Dymuna Non ac Eifion, Cynlas, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch i enethod Cymorth Cartref ac i'r Nyrsys Cymuned am eu gofal tyner o Arthur. Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard a Gwynfor Jones o E.W. Pritchard. Hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd, er cof amdano, tuag at Ward Peblig, Eryri, a Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Fred a Beth Owen, Carregwen, ar ddathlu eu Priodas Aur ar y 15fed o Hydref. Dymuniadau gorau gan Ann, Dave a Jen. Hefyd, llawer o gariad i Nain a Taid gan Matt a Mary Ellen.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth Roberts, Sŵn Y Gwynt, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty

Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Jade Roberts a oedd yn 21 ar 29 Awst; hefyd i Judith Fisher a oedd yn 50 ar 28 Awst ac i Marge Bee oedd yn 60 ar 21 Awst.

GWELLHAD. Dymunwn wellhad buan i Janet Pitt sydd wedi bod yn sâl ers wythnosau bellach. Croeso gartref i Sardi Humphreys ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar ac hefyd i Stan Jones, Dôl Elidir.

DIOLCH. Dymuna Jade ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r pres a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain. Diolch i bawb.

DYMUNA Erin Welsby ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r pres a dderbyniodd ar achlysur bod yn Frenhines Carnifal Nant Peris.

PRIODAS Dymuna Derfel Owen, gynt o 9 Stryd Yr Wyddfa, Llanberis, a'i wraig, Anita, ddiolch yn fawr iawn i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yng Ngwesty Victoria, Porthaethwy, ddydd Sadwrn Awst yr 28ain.



Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



YSGOL BRYNREFAIL - PRIF DDISYBLION



PRIF FACHGEN - Dyfan Coles

Yn hanu o: bentref Bethel
Addysg gynradd: Ysgol Bethel
Yn astudio: Mathemateg, Cemeg, Ffiseg a Mathemateg Bellach
Diddordeb: Chwarae pêl-droed, cerddoriaeth a chymdeithasu
Hoff raglen deledu: Shooting Stars, The Apprentice
Hoff fiwsig: Coldplay
Cas beth(au): Jedward



PRIF ENETH - Awen Hughes

Yn hanu o: Llanrug
Addysg gynradd: Ysgol Llanrug
Yn astudio: Bioleg, Cemeg, Addysg Gorfforol
Ddiddordeb: Chwaraeon, gwrando ar gerddoriaeth, David Attenborough!
Hoff raglen deledu: Amrywiaeth – Dragon's Den.
Hoff fiwsig: Red Hot Chilli Peppers, Arctic Monkeys
Cas beth(au): Louis Walsh, Jason Dervlo, Glee, Sos Coch



DIRPRWY PRIF FACHGEN - Llywelyn Williams

Yn hanu o: bentref Pontrug.
Addysg gynradd: Ysgol Llanrug
Yn astudio: Hanes, Daearyddiaeth, Cerddoriaeth, Cymraeg
Ddiddordeb: Rygbi, Cerddoriaeth a chwaraeon eraill
Hoff raglen deledu: The Inbetweeners/ Waterloo Road
Hoff fiwsig: Muse, Calvin Harris, Kings of Leon
Cas beth(au): Tim pêl-droed Lloegr.



DIRPRWY PRIF ENETH - Catrin Jones

Yn hanu o: Bethel
Addysg gynradd: Ysgol Bethel
Yn astudio: Bioleg, Cemeg, Cerdd.
Diddordeb: Gwrando ar gerddoriaeth, Richard Attenborough!
Hoff raglen deledu: Friends, The Vampire Diaries, Planet Earth
Hoff fiwsig: Michael Buble, The Gabe Dixon Band.
Cas beth(au): Chocolate digestives, Ne-Yo



DIRPRWY PRIF FACHGEN - Ben Jones

Yn hanu o: bentref Llanberis.
Addysg gynradd: Ysgol Dolbadarn.
Yn astudio: Saesneg, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Busnes.
Ddiddordeb: Pêl-droed.
Hoff raglen deledu: The Inbetweeners
Hoff fiwsig: Kasbian
Cas beth(au): Tim pêl-droed Lerpwl.



DIRPRWY PRIF ENETH - Elena Owen

Yn hanu o: Bethel
Addysg gynradd: Ysgol Bethel
Yn astudio: Bioleg, Cemeg, Ffiseg
Diddordeb: Pêl-droed / unrhyw chwaraeon
Hoff raglen deledu: Bizarre E.R.
Hoff fiwsig: The Script
Cas beth(au): Liquorice

YSGOL BRYNREFAIL – *Hairspray*

Am wythnos gyffrous ddiwedd Gorffennaf, trawsfurfiwyd neuadd Ysgol Brynrefail yn set rhaglen deledu ar gyfer llwyfannu cynhyrchiad o sioe gerdd wych *Hairspray* yn Gymraeg. Fis Ionawr diwethaf dechreuodd y gwaith caled o gynllunio, castio, cyfieithu a threfnu, a chyrrhaeddodd hyn benllanw cyffrous wythnos ola'r tymor. Croesawyd darpar-ddisgyblion Blwyddyn 7 i wylïo'r perfformiad brynhawn Llun, ac yna cafwyd dau berfformiad ar y nos Fawrth a'r nos Fercher.

Seilir stori *Hairspray* ar y mudiad hawliau sifil yn America ar ddechrau chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r 50au wedi hen fynd ac mae rhyw newid yn yr aer. Does gan Tracy Turnblad, y ferch fawr gyda'r gwallt mawr a chalon fwy o Baltimore ond un freuddwyd – dawnsio. Y mae'n ennill lle ar 'Sioe Corny Collins' - rhaglen ddawns ar deledu lleol – a thros nos, fe'i trawsnewidir yn seren y sgrin.

Ond a fydd yn gallu trechu tywysoges bresennol y sioe, ennill calon Link Larkin, ac integreiddio'r sioe deledu heb ddifetha'i gwallt? Yr ateb, wrth gwrs yw ... gall!!

Dyma sioe gerdd yng ngwir ystyr y gair, gyda dim llai na 24 o ganeuon a dawnsfeydd bywiog a chofiadwy. Sialens a hanner i'r disgyblion ac i staff Ysgol Brynrefail. Ond, heb amheuaeth, fe dalodd yr oriau o ymarfer ar ei ganfed, gyda phawb yn mwynhau ac yn gadael yr ysgol gyda rhyw ysbryd ysgafnach yn eu cerddediad.

Diolch i bawb a gyfannodd at lwyddiant *Hairspray* mewn unrhyw ffordd, o'r gymuned leol a noddodd y sioe, i'r bechgyn fu'n adeiladu'r set. O'r corws ffyddlon a dibynadwy, i'r band anhygoel a phroffesiynol. O'r criw dygn cefn-llwyfan i'r cast gwefreiddiol Ac i Tammi Gwyn am ein helpu i ddod â'r weledigaeth yn fyw o flaen ein llygaid. Dyma rai lluniau i roi blas o'r bwrlwm:



E-BOST NEWYDD I'R ECO!

Dyma gyfeiriad newydd sbon i chi-
ecorwyddfa@gmail.com

Gallwch anfon eich lluniau a'ch storïau yma o hyn ymlaen. Os nad oes gennych gyfrifiadur, ac am roi llun neu ddarn o ysgrifen i mewn, ewch ag o i

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Ffordd Llanberis, Llanrug
ac fe wnaiff ei sganio a'i roi yn ôl i chi'n syth.

Wrth gwrs, mae'r hen ddulliau o roi deunydd i'r Eco yn dal i weithio, h.y. gohebwyd pentref a'r post.

Gallwch anfon stff i alwena.owen@gmail.com
neu i'r golofn Chwaraeon drwy anfon at
richard.llwyd@yahoo.co.uk

DOES DIM ESGUS DROS

BEIDIO CYSYLLTU EFO'R ECO

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: (01286) 650218

**Mae pobl dros 50 oed yn
ymddiried yng nghynhyrchion
a gwasanaethau
Age Concern**

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Oe byddwch yn cytifluto a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynhyrchiad penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei aedduddio a'i reoliddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfnglad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gaffrededig.

Gwasanaeth Gwres a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

YSGOL BRYNREFAIL – Hairspray



BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan **(01248) 361044**



D. P. OWENS RHIWLAS

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: 0844 411 9003

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



RHEILFFORDD LLYN PADARN

POBLOGAIDD YN 2009

HELFA CALAN

Hanner tymor yr Hydref

Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwrachod a darganfod gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11eg y bore tan 2.45 y prynhawn



Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael
Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIMI!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 30.10.10)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anhregion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 5ed, 11eg/12fed, 18ed/19eg
Oedolion a phlant o £7.00
(plant o dan dair oed o £3.00)

Rhaid archebu o flaen llaw



SMALA
www.smala.net

Gwefan
Posteri
Taflenni
Logo
Cardiau busnes
Llyfrau archebion
Penllythyr
Sticeri . Labeli
Argraffu o bob math



01286 660 364
07887 654 251

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

YSGOL BRYNREFAIL – CROESO!

CROESO BLWYDDYN 7

Y Pennaeth, Mr Eifion Jones gyda disgyblion newydd blwyddyn 7 ar ddiwedd eu gwasanaeth cyntaf yn Ysgol Brynrefail. Y mae teulu Brynrefail yn eu croesawu'n gynnes i'n cymuned ac yn dymuno pob llwyddiant a hapusrwydd iddynt yn ein mysg.



GWEITHDY MENTER BL.12

Ar 15fed Medi 2010 bu Gyrfa Cymru ym Mrynrefail i weithio gyda blwyddyn 12. Diben y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o fydd busnes a menter.

Bu nifer o weithdai yn ystod y diwrnod a bu raid ffurfio cwmnïoedd i gydweithio trwy gydol y dydd gyda'r nod o greu cynnyrch o safon uchel a gallu

cystadlu gyda chwmnïoedd eraill er gwneud elw gyda chyfyngiadau llym o ran amser a safonau.

Dywedodd David Williams, a oedd yn Rheolydd Cyllid gydag un o'r cwmnïau, 'Mae'r diwrnod wedi helpu gyda'r hyder i gydweithio gyda phobl eraill a sut i weithio gydag eraill ym myd masnach.'

HOGIA NI – DA 'DE

Ieuencitid CPD Caernarfon v Ieuencitid Llanllyfni

Eleni y mae Clwb Pêl-droed Caernarfon wedi gwahodd ieuencitid y cylch i chwarae i dîm ieuencitid y clwb heb orfod ymuno na chwarae i unrhyw dîm arall sy'n gysylltiedig â CPD Caernarfon. Ar ddydd Sul chwaraewyd yr gêm gyntaf yn erbyn Ieuencitid Llanllyfni fe gymerodd nifer o hogiau Ysgol Brynrefail gyfle am gêm. Da hefyd oedd gweld cyn-

ddisgybl a chyn-gyfaill, Siôn Kyle, yn chwarae i Llanllyfni. Mae Siôn yn astudio Gwyddoniaeth Chwaraeon yng Ngholeg Menai. A'r sgôr terfynol?

C.P.D.Llanllyfni 1 C.P.D.

Caernarfon 4

Ond rhaid gofyn un cwestiwn. Pam bod hogiau Dyffryn Peris yn gorfod teithio i Gaernarfon i gael gêm?

Cyfeillion Ysgol Brynrefail



Wel, coeliwch neu beidio, mae'r bws mini presennol wedi cael ei defnyddio ers iddi gyrraedd yr ysgol yn Ionawr 1998 ac erbyn hyn mae'n dangos ei oedran rhyw ychydig.

Eleni, mae Cyfeillion Ysgol Brynrefail wedi penderfynu mai

codi arian tuag at Cronfa Bws Mini newydd fydd eu prif nod ac maent yn gobeithio codi digon o arian fydd, ynghyd â cheisiadau llwyddiannus am grantiau, yn eu galluogi i brynu bws newydd sbon i'r ysgol. Eu menter gyntaf fydd:

BLWYDDYN 12



Rhai wythnosau yn ôl yr oedd disgyblion blwyddyn 11 yn disgwyl yn eiddgar am ganlyniadau eu arholiadau. Ar ôl cyfnod byr o ddatllu fe ddaeth y pendroni am y cam nesaf a chriw helaeth yn penderfynu ail ymuno â theulu Brynrefail trwy ymuno â'r chweched dosbarth.

Ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn Ysgol newydd fe fuont yn cyfarfod y pennaeth, Mr Eifion Jones, a'i ddirprwyon, Ms Eirwen Williams a Mr Dilwyn Roberts,

i ddechrau ar y gwaith o adnabod rheolau'r chweched dosbarth a rheolau'r amserlen. Yna teithio i'r gwahanol adrannau er trafod gyda phenaethiaid y pynciau eu dewisiadau fel pynciau i'w hastudio yn ystod eu cyfnod yn y chweched dosbarth. Unwaith yr oedd pawb wedi cytuno ar eu pynciau yna mynd i weld Pennaeth y chweched dosbarth, Mr Harri Jones, i gofnodi eu dewisiadau. A hwythau'n meddwl y byddai bywyd yn y chweched yn hawdd!!!

Llywelyn Williams Bl. 13



Llanelli Scarlets dan 18 - 22. RGC1404 dan 18 - 23

Yn adroddiad Undeb Rygbi Cymru ar y gêm a chwaraewyd ar gae Clwb Rygbi Bynia fe ddisgrifiwyd Llywelyn Williams yn 'darw' am ei berfformiad yn ystod y gêm. I mi gofio, dim ond Emyr Lewis, cyn-chwaraewr Llanelli a Chaerdydd ac a enillodd 41 o gapiau dros ei wlad, gafodd y fath glod.

O weld y llun o'i rediad, uchod, gallwn weld bod y disgrifiad yn un cywir ac yn wir

yn dilyn y rhediad gwyh yma fe sgoriwyd cais i RGC1404 gan Mike Jones.

Ond beth sy'n galonogol am y gêm yma yw bod y Sgarlets heb golli'r un gêm yn yr ornest dan 18 cyn hyn. Dyma'r fuddugoliaeth gyntaf gan RGC1404 dan 18 yn y gystadleuaeth eleni yn wir dyma'r fuddugoliaeth gyntaf i RGC1404 dan 18 ers eu sefydlu yn 2008. Gwyh!

Hogyn Brynrefs – da 'de

NOSON CYRI A CWIS

7:30pm Nos Gwener 8fed Hydref 2010

Tafarn y Bedol – Bethel

Noson o hwyl a sbri – cefnogwch ni,
os gwelwch yn dda

Timau o hyd at 5 person - cofrestru ar y noson
Cost o £8.00 y person - i gynnwys y cwis a'r cyri

O SLAMBAR SELWYN

Mae'n rhyfedd fel mae dyddiau plentyndod yn dod 'nôl i rywun wrth i ni fynd yn hŷn. Rhaid i mi gyfaddef fy mod i, drwy gydol fy oes, wedi mwynhau fy nghwmni fy hun ar sawl achlysur, ac yn aml iawn y dyddiau hyn, mi fydda i'n cael fy hudo ar adain dychymyg yn ôl i rai o'r mannau hyn yn ardal fy mhleentyndod.

Led cae o fy nghartre, Bryn Alun, ym Methel, i gyfeiriad Rhos Chwillog, roedd 'na goeden - o bosib ei bod hi yno o hyd. Mi dreuliais i oriau ar Nyth Brân y goeden hon yn hwylio dros gefnfor dychmygion, a chael fy siglo i ben-draw-byd breuddwydion. Roedd y profiad yn fwy cynhyrfus ar ddiwrnod gwyntog. Dyna pam y byddwn i yn mwynhau gweld y môr yn dangos ei ddannedd ar ambell fordaith y bŵm arni. Ond mae'r môr yn orlog. Cof da gennyf fynd ar fordaith Rownd yr Horn, ble mae Y Môr Tawel, Môr Iwerydd a'r Antartic yn cyd-gyfarfod, gyda'r gobaith o gael storm i'w chofio. Ges i'r profiad? Choelia i fawr, roedd y môr o gwmpas yr Horn mor dawel â Llyn Cwellyn ar ddydd o haf.

Rai dyddiau yn ôl, mi barciais y car yn Tre'r Gof, Bethel, a cherdded ar hyd y lôn bach gul i gyfeiriad y Gwyndy. Doeddwn i ddim wedi gwneud hyn ers blynyddoedd. Ar hyd y lôn hon y byddwn i yn cael cwmni'r awen yn y blynyddoedd cynnar, a synnwn i ddim na fu i mi ennill ambell gadair eisteddfod wrth synfyfyrion ar hyd lôn Bach Trego'. Daeth yr atgofion yn ôl. Ond doedd na'r un Tarzan yn swingio ar bendil o raff i achub Jên o'i chuddfan yn y dail yng nghoed y Gwyndy. A chlywais i ddim sŵn y trêr ar drac rêl y Santa Fe yn tuchan ei ffordd rhwng Penscoins ac Erw Fforch wrth gludo'r cyfoeth o Glondeic y creigiau glas i Fanc y Faenol.

Dychwelyd yn freuddwydiol

atgofus a throi i lawr y llwybr sy'n arwain at Afon Tyddyn Bach. Synnais fod 'na dwnnel o goed yn gorchuddio'r llecyn ble byddwn yn ymdrochi'n noethlymun groen. Prin roeddwn i'n clywed yr afon yn ceisio sibwrdd ei chyfrinachau wrtha i. Roedd 'na rhyw dristwch i'w deimlo wrth i mi synfyfyrion uwchben y sbwriel yn y dyfroedd. Fydda 'na neb yn ymdrochi yn Afon Tyddyn Bach heddiw. Ond roedd y Goeden Gam yno o hyd, a chofiaf ddringo i'w Nyth Brân i ollwng bomiau mes ar gonfoi gwyrdd o gychod brwyn a hwyliai o dan bont crawia Tyddyn Bach.

Teimlo'n flinedig a'r atgofion yn corddi yn fy meddwl. Gwell troi am Benisa'rwaun, ond wrth basio Pont Charlie mi barciais y car ger giât Tyddyn Berth a cherdded at y bont. Dyma'r fan lle byddem yn cyfarfod yn un gang, yn enwedig yn yr haf. Dyma'r lle y bŵm sawl tro yn ceisio gollwng torchan i lawr corn y trêr chwarel wrth iddi dychan ei ffordd o dan y bont. Roedd o'n arferiad gennym hefyd gerfio ein henwau â chyllell boced i'r lechen las ar risiau'r bont. Na, er i mi sylu'n fanwl, ni welais fy enw, nac enw yr un o'm cyfoedion chwaith.

Roedd stormydd y blynyddoedd wedi sgwrio'n cyfan i ebargofiant.

Dwi'n diolch yn aml ac yn gwerthfawrogi'r ffaith i mi gael treulio foes ym mhlwyf Llanddeiniolen, ac eto mod i wedi cael gweld pob man yr oeddwn i'n awyddus i'w weld o'r hen fyd 'ma. Dymunol hefyd ydi cael y profiad o fynd 'yn ôl yn blentyn eilwaith', a chael ymlwybro'n hamddenol tuag ambell 'le, lle bŵm yn gware gynt'. Mynd yno ar fy mhen fy hun. Mynd yno i ymddiddan â'm calon, a mwynhau drachtio'r atgofion am ddyddiau fy mhleentyndod.

Gwyn fy myd.

GWEITHWYR Y LORI LUDW

Fe sgwennwyd y penillion hyn gan Thomas Henry Jones (Twm Crogwr) Bethel, tua diwedd y 60degau am weithwyr yr hen Gynghor Gwryfai. Criw y lori ludw yr adeg honno oedd Huw Jane (dreifar), Jack Erw Bian, Glyn Bach a Now Tŷ'r Felin, i gyd o ardal Llanrug. Mae'r penillion yn adrodd hanes a ddigwyddodd ar Stad Bro Rhuddallt, Llanrug.

Brathiad Now Tŷ'r Felin

Fe glywais stori hynod
Un noson yn y dre
am gyfaill, Now Tŷ'r Felin,
A'r helynt gafodd e.
Wrth wagio bagiau Gwryfai
A'u cario i'r drol faw
Daeth clamp o gi o rywle
A'i frathu yn ei law.

I'r ysbyty aeth ein cyfaill
Bron hollol mynd o'i go
Ac yna cael injection

I'w arbed rhag 'lock jo'.
Roedd Owain wedi dychryn,
Wel, felly glywais i,
Pan welodd hoel y dannedd
A wnaeth y ffyrnig gi

Mae Now yn dwedyd heddiw
Wrth lawer un, â rheg,
Fod ci mewn tŷ yn Rhythallt
Â dannedd lond ei geg;
Ond os gofynnwch iddo
Pa le mae'i ddannedd o
Mae dannedd Now Tŷ'r Felin
Mewn drôr yn saff dan glo.

Fe ddysgodd yr hen gyfaill
Y wers yma'n awr
Fod dannedd gan bob ci a dyn
Sy'n cerdded daear lawr;
Ac felly, Now Tŷ'r Felin,
Rhof gynghor bach i ti,
I roi dy ddannedd yn dy geg
I tithau frathu'r ci.

Derbyniwyd gan R. WILLIAMS,
Bethesda Bach

Natur Gwynedd

Gofalu am ein bioamrywiaeth o'r môr i'r mynydd

Ffwng Ffantastig!

Os hoffech chi fynd ar daith ychydig yn wahanol, yna dewch ar ein Helfa Ffwng i ddarganfod yr amrywiaeth gwych o fadarch a ffyngau eraill sydd i'w gweld yn ein coedlannau yng Ngwynedd. Gyda help Charles Aron, arbenigwr ym myd y ffyngau, cewch hefyd gyfle i adnabod y ffyngau lliwgar y byddem yn darganfod yn y coedlannau derw ym Mharc Padarn. Trefnir y digwyddiad hwn gan bartneriaeth Natur Gwynedd, a bydd yn cychwyn o faes parcio yr Amgueddfa Lechi ym Mharc Padarn am 1.30pm ar ddydd Sadwrn 25ain Hydref (efallai yr hoffech ddod â basged neu gynhwysydd arall i gasglu'r madarch). Dewch ag esgidiau cerdded addas a dillad dal dŵr (rhag ofn!). Bydd angen i blant fod yng nghwmni oedolyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Laura Jones ar 01286 679381 neu ewch i:

www.gwynedd.gov.uk/bioamrywiaeth

HANES

AMAETHYDDIAETH

Oes gennych chi ddiddordeb mewn Hanes Amaethyddiaeth? Oes gennych chi atgofion, hen offer neu hen luniau am ffermio fel y bu, neu fel y mae? Os oes, yna bydd cynhadledd ar y thema 'Hanes Amaethyddiaeth yng Nghymru' yn sicr o fod o ddiddordeb i chi. Cynhelir y gynhadledd ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, ar benwythnos Tachwedd 12-14, 2010, a dymuna'r trefnwyr dynnu eich sylw at Brynhawn Agored ar ddydd Sadwrn, 13 Tachwedd. Bydd croeso i'r cyhoedd ddod ag unrhyw offer, hen luniau, dyddiaduron, ayyb i'w dangos ac, wrth gwrs, i sgwrsio a hel atgofion. Bydd amrywiol arddangofeydd a stondinau a chyfle i holi a thrafod pethau dros bandedd a rhoi prawf ar rai o'r arbenigwyr fydd yno. Trefnir y cynhadledd gan Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth (sy'n cyhoeddi'r Cylchgrawn *Fferm a Thyddyn*, a thros y penwythnos byddwn yn trafod datblygiad amaethyddiaeth Cymru o'i gychwyn yn y cyfnodau cynhanesyddol; i'r canol oesoedd, chwyldro amaethyddol y 18fed ganrif a thwf mawr y ganrif ganlynol; y War Ag; diwedd oes y ceffyl; ffermio modern ac oes y grantiau, Tir Cymen a Glastir. Cewch fwy o fanylion a rhaglen lawn i'r gynhadledd drwy gysylltu â Twm Elias (01766 772610) neu twm-elias@eryri-npa.gov.uk

E-BOST NEWYDD I'R ECO!

ecorwyddfa@gmail.com

Gallwch anfon eich lluniau a'ch storïau yma o hyn ymlaen. Os nad oes gennych gyfrifiadur, ac am roi llun neu ddarn o ysgrifen i mewn, ewch ag o i Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Ffordd Llanberis, Llanrug ac fe wnaiff ei sganio a'i roi yn ôl i chi'n syth.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd 17eg o Awst 2010 penderfynwyd:

- Plannu bylbiau Cennin Pedr o gwmpas y Gymuned eto eleni.
- Diolch i Robin Vaughan a Menter Fachwen am y cymorth a gafwyd gyda'r Cynllun Trefi Tacius yng Ngwmyglo.
- Trefnu cyfarfod gyda Adran Prifffyrdd y Sir ger Cae Chwarae Pwll Moelyn er mwyn arolygu diogelwch y safle.
- Symud y bin sydd yn Cae Chwarae Nant y Glyn a chael un newydd tu allan i'r cae a gofyn i Gyngor Gwynedd ei wagio yn wythnosol.
- Gwahardd mynd â photeli gwydr i'r Caeau Chwarae gan fod ieuencid anghyfrifol yn eu malu sy'n gwneud y safle

yn beryglus i blant chwarae yno. Bydd arwydd yn cael ei roi i fyni ger y ddwy giat ar ôl trafod gyda'r Heddlu.

- Nad oedd gwrthwynebiad i'r Cais Cynllunio canlynol:

1. Adeiladu dau dŷ a mynedfa newydd – llain o dir ger Pen y Buarth, Llanrug

Nad oedd digon o wybodaeth ynglŷn â defnydd i wneud penderfyniad ar y cais

2. Dymchwel estyniad a chodi un newydd ac adeiladu adeilad ar gyfer storio a gweithgareddau hobi – Cae Rhydau, Pontrug.

- Cysylltu a BT ynglŷn â'r difrod i'r ciosg yn Nhanycoed.

- Gofyn i Gareth Roberts a fyddai yn ystyried creu logo swyddogol i'r Cyngor.

- Trefnu i dorri eithin ar lwybr Gellioid.

Moliant

Mae yr hydref rhyfeddol wedi sleifio'n ôl - liwus - dywyllodrus, ar faelydd a dôl.

Mae'n 'liwgar lygredigaeth' medd englyn rhyw fardd, mae'n fis Impresionyddion ar ganfas hardd.

Mae yn creu ail-wanwyn fel machlud drwy'r coed, tynn dylwyth y samon yn ôl fel erioed

i raeau llednentydd, lle agorant rych claddu i atgyfodi - rhagluniaeth wych...

Sbloet yw'r Fach-Wen, fel mae Y Clegyr -, Chwarel Glyn, gwnant gelwydd Mihangel yn bader syn!

Lleuad Fedi; lleuad Heliwr - lanterni'r cwm - y tarth yn ymsymud - ac mae'n gwlitho'n drwm,

gan greu trysordy o berlau - sbectrwmau'r gwllith yn disgleirio'r fore trannoeth - dyma rith!

Stond yw y gwacter lle bu pin-dur gwennol las yn sgriblo'i llythrennau uwch sgrôl y dŵr bâs.

A daw mewian bwncathod wrth amgylchu o'r glog - troi cefn wnaiff y fuches ar sgrympiau gwyl grog.

Ac eto eleni - bydd hen drefn gwyrt ar wyrth yn taro rhyw nodyn - a'n galw drwy'r pyrt

i Wyl Ddiolchgarwch am gynhaef a'i stôr, ar glôb sy'n dal i droi - drwy ddirgel ffyrdd Iôr.

NORMAN CLOSS, FACH-WEN

UN FUNUD FACH

CREDU, NID PROFI

Cafodd llyfr diweddaraf y gwyddonydd Stephen Hawking, *The Grand Design*, sylw mawr dros yr wythnosau diwethaf. Yn ôl a ddeallaf, mae Hawking yn dadlau yn y llyfr hwn nad oedd angen Duw i roi cychwyn i'r greadigaeth. Hyd at gyhoeddi'r llyfr, mae'n debyg iddo gydnabod y posibilrwydd y gallasai fod a wnelo Duw ryw beth â chreu'r byd. Ond erbyn hyn, mae'n mynnu i'r byd ddod i fodolaeth trwy brosesau gwyddonol, a bod deddfau ffiseg yn gallu esbonio sut y digwyddodd hynny. Wnaif fi ddim meiddio honni fy mod yn deall ei ddadleuon gwyddonol. Mae Hawking yn credu nad oedd angen Duw i greu'r byd. Mae'n berffaith rydd i gredu hynny, wrth gwrs. Nid yf yw'r cyntaf o bell ffordd, gan fod mwy na digon o bobl wedi credu hynny erioed.

Y mae Stephen Hawking yn hynod o ddysgedig a galluog. Mae'n wyddonydd disglair, ac yn feddyliwr mawr. Ond, nid yw ef, na neb arall o ran hynny, yn ddigon galluog i brofi nad yw Duw'n bod. Ni all ei ffiseg na'i wyddoniaeth na'i holl resymegu brofi hynny.

Nid ydym fel credinwyr yn honni bod modd profi bodolaeth Duw. Mae gennym resymau da dros gredu yn Nuw, ac er gwaethaf popeth a ddywed Hawking ac eraill, daliwn i gredu bod rhyfeddod ein byd naturiol yn tystio i law gelfydd a galluog Duw'r Creawdwr. Ond un wedd ar bethau yn unig yw'r Cread. Mae gennym seiliau cadarn eraill dros gredu ym modolaeth Duw. A'r cryfaf ohonynt yw'r argyhoeddiad bod y Duw byw wedi ei ddangos a'i egluro ei hun i ni trwy'r Beibl ac ym mherson ei Fab, Iesu Grist. Mae'r crediniwr wedi ei berswadio nid yn unig bod yna Dduw, ond hefyd sut fath o

Dduw ydyw.

Ond nid ydym yn honni y gallwn brofi yn ddi-gwestiwn bod yna Dduw. Ac nid ofn colli'r ddadl sy'n gwneud i ni fod felly. Gwyddom, ac yr ydym yn cydnabod, na allwn brofi bodolaeth Duw y tu hwnt i bob amheuaeth, yn wyddonol neu mewn unrhyw ffordd arall. Oherwydd, beth bynnag y dystiolaeth, mater o ffydd yw hyn. Mater o gredu ydyw. I'r crediniwr, wrth gwrs, mae'r ffydd hon wedi ei seilio ar y dystiolaeth gadarn a wel dros fodolaeth Duw. Ond mater o ffydd ydyw, wedi'r cyfan.

Ni allwn brofi bodolaeth Duw. Rydym yn cydnabod hynny, nid am ein bod yn ofni nad ydym ni ein hunain yn ddigon clyfar i brofi'r peth, ond am na ellir gwneud hynny. Credu bod Duw; credu yn Nuw a wnawn ni. Ac yn yr un ffordd, anghredu (neu beidio credu) a wna'r rhai sy'n gwrthod pob syniad am Dduw. Ni all neb, pwy bynnag ydyw a beth bynnag ei allu, brofi nad yw Duw yn bod. Mae hynny'n amhosibl.

Mae anghredinwyr wedi dadlau erioed na allwn ni brofi bodolaeth Duw. Mae'n rhaid iddynt fod yn ddigon doeth i gydnabod na allant hwythau brofi nad yw'n bod, ac yn ddigon gonest i gydnabod mai mater o beidio credu ydyw ar eu rhan.

JOHN PRITCHARD

Archifdy Caernarfon

Ar gau dros dro

Er mwyn ymgymryd â chyfrif stoc, bydd Archifdy Caernarfon ar gau o 11 Hydref hyd 18 Hydref 2010. Ymddiheurwn am unrhyw anhwylostod.

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda o aelodau i gyfarfod cyntaf o'r Clwb yn ddiweddar a chafwyd gair o groeso gan y llywydd, y Prifardd Selwyn Griffith. Penderfynwyd mynd o amgylch y pentref i gasglu er budd Age Concern Gwynedd a Môn gyda hanner yr elw yn dod yn ôl i'r Clwb. Hysbyswyd yr aelodau am y Cyfarfod Blyneddol ac hefyd y cyfarfod nesaf o'r Fforwm.

Y siaradwr gwadd oedd Russell Jones, Rhosgadfan, ac roedd wedi dod ac un o'i geiliogod yn gwmni iddo, ac eisteddodd y ceiliog yn hapus braf ar ei focs trwy'r pnawn. Bu'n siarad yn ddifyr iawn am y gwahanol fridiau o ddofednod sydd ganddo ac aeth ymlaen i sôn am sut y bu iddo ymddiddori mewn gwau, gan ddangos y wahanol fathau o wllân roedd yn ei ddefnyddio. I ddiweddu'r sgwrs cawsom olwg trwy luniau ar Y Patsch i fyny yn Rhosgadfan, a syndod oedd gweld y gweddnewidiad oedd wedi digwydd dros gyfnod o amser.

Wrth dalu gair o ddiolch i'r siaradwr cyfeiriodd Gwyneth Jones pa mor falch oedd pawb o weld y llywydd wedi gwella yn dilyn cyfnod yn yr Ysbyty, a dymunwyd yn dda iddo. Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri'r Cysegr yng nghwmni Ellis Wyn, Bodffordd.

PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL. Diolch yn fawr iawn i bawb a fentrodd drwy'r gwynt a'r glaw i gefnogi'r noson goffi.

Os oes unrhyw un yn parhau i ddymuno rhoi eu henwau i lawr ar gyfer ymuno â phartion canu, llefaru a cherdd dant (cynradd ac uwchradd) rhaid rhoi eich henwau i Deilwen Hughes (670 517) cyn 4.10.2010.

Mae rhaglen yr Eisteddfod

bellach wedi ei chyhoeddi ac ar gael am ddim yn Swyddfa Bost Bethel, yr Ysgol Gynradd neu gan aelodau'r Pwyllgor. Noder mai dyddiad cau y cyfansoddiadau llên uwchradd a'r ddwy gystadleuaeth agored yw 5pm, 22.10.2010 - i law Lowri Evans, 3 Tan y Cae, Bethel.

Dyddiad cyfarfod nesaf y pwyllgor yw Nos Lun Hydref 1leg am 7:00yh yn festri Capel Cysegr.

CYDYMDEIMLAD. Bu farw Mary Madoc Jones, gynt o 14 Cremlyn, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 2 Awst yn 90 mlwydd oed. Gweddwyd y diweddar Hugh Richard Jones. Cynhaliwyd y Gwasanaeth yn Eglwys St Deiniol, Llanddeiniolen, ar 9 Awst ac i ddilyn ym Mynwent yr Eglwys. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Robert Townsend. Derbyniwyd casgliad o £130 at Fynwent yr Eglwys. Trefnwyd yr angladd gan Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis.

DIOLCHIADAU. Dymuna Bessie Ellis ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 ar Fedi cyntaf.

DYMUNA Mary, Richard, Barri, Catrin a theulu y diweddar Oscar Evans, 3 Bro Eglwys, ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith a thaid annwyl iawn. Diolch am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r holl roddion ariannol tuag at Feddygfa Waunfawr.

Hefyd dymuna Richard ddiolch o galon i bawb a wnaeth ei noddi i redeg Ras yr Wyddfa. Casglwyd £1,250, a gafodd ei

rannu rhwng Uned Dydd a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a Grŵp Cefnogi Asperger/Awtistiaeth Gwynedd a Môn.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, Medi 8, mwynhaodd y gangen wledd o ganu dan ofal Robat Arwyn. Cawsom glywed amrywiaeth o'i gyfansoddiadau a thystiodd pawb iddynt gael noson agoriadol fyddai yn aros yn y cof am amser maith. Diolchwyd i Robat Arwyn yn galonogol iawn gan Glenys Griffith, oedd wedi bod yn athrawes gerdd arno yn Ysgol Dyffryn Nantlle ac wedi gweld fod ganddo ddawn gerddorol arbennig hyd yn oed yr adeg hynny.

Croesawodd y llywydd newydd, Rhian Hughes, yr aelodau ac estyn croeso arbennig i dair aelod newydd, sef Alice Jones, Anne Lloyd Jones a Margaret Eckley.

Yn drist iawn estynnodd gydymdeimlad llwyraf yr holl aelodau at Mary Evans, yn ei phrofedigaeth lem o golli ei gŵr, Oscar, ac hefyd at Liz Watkin, oedd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i Margaret Williams yn ei chartref newydd ym Mro Rhos a dymunwyd ymddeoliad hapus i Geraint Elis, gŵr Anne.

Anfonwyd cofion a dymuniadau gorau at Collwyn Williams a Brian Sharpe, y ddau heb fod yn dda ac wedi cael cyfnodau yn yr ysbyty ac yn parhau i dderbyn triniaeth. Da oedd gweld Lynwen Morris wedi gallu dod atom ar ôl cael damwain a niweidio ei braich yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd holl blant y pentref ar ganlyniadau arholiadau amrywiol a dymunwyd yn dda iddynt yn eu gyrfaedd pellach.

Braf oedd cael llongyfarch Dewi Griffiths ar ei lwyddiant gyda Band Melingriffith a Band Tredegar yn yr Eisteddfod Genedlaethol a hefyd Carwyn

Jones a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Llwyd o'r Bryn.

Llongyfarchwyd Alis Jones ar ddod yn nain i Gwyddno Ifan, mab bach a anwyd i Huw Llywelyn a Cadi, Caerdydd, ac hefyd Eurig Druce a Llinos Larsen ar eu priodas yn ystod yr haf. Dymunwyd yn dda hefyd i Anne, merch Lis Evans, a'i gŵr, Geraint, ar ddathlu eu Priodas Arian.

Darllenwyd yr ohebiaeth am destunau y ffair aeaf, y cwrs celf a chreffft a'r sesiwn gerdded nordig a danteithion iach. Ymfalchiwyd yn llwyddiant Rhanbarth Arfon yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd a llongyfarchwyd Siân Davies, aelod o'r gangen, ar ddod yn gyntaf gyda'i gwaith ffotograffiaeth yno.

Diolchwyd i'r pwyllgor am eu cydweithrediad wrth baratoi y rhaglen ac am eu haelioni wrth gyfrannu at y lluniaeth ac i Glenys Griffith am argraffu y rhaglen.

Cafwyd lluniaeth ysgafn i gloi y noson ac enillwyr y raffl oedd Lynwen Morris, Anwen Pritchard, Margaret Williams ac Anne Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 13 Hydref, pan ddisgwylir Nia Wyn Williams i sgwrsio am hynafolion. Bydd croeso i chwi ddod ag unrhyw eitem ddiddorol sydd gennych os ydych angen eu prisio neu am gael gwybodaeth bellach amdanynt.



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth

**8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE**

01286-672076

williamshw@parliament.uk

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â

fflam .biz

JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

**RHODD O'R GALON
YW BLODAU**

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod diwethaf ar 2 Medi, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau yn ôl wedi'r gwyliau haf a hefyd y gŵr gwadd, sef Mr Bobby Haines, o Gaernarfon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ynghyd â lluniau am rai o'i arwyr a hefyd hen adeiladau arbennig iawn o Gaernarfon sydd erbyn hyn wedi eu chwalu, megis yr Hen Bafiliwn a'r Drill Hall. Roedd pawb wedi mwynhau'r sgwrs yn fawr iawn.

Diolchodd Pat iddo. Enillydd o raffl, wedi ei rhoi gan Lowri, oedd Nancy. Bydd y cyfarfod nesaf ar 7 Hydref pryd y ceir sgwrs gan Eddie a Jean Morgan ar 'Bara Cartref a Hufen Iâ'.

CLWB BOWLIO. Mae'r Clwb wedi aildechrau ar ôl gwyliau'r haf. Cynhelir y cyfarfodydd yn y Ganolfan ar bnawn Mawrth o 2-4 a nos Fawrth, o 7-9 o'r gloch. Hefyd ar bnawn Iau o 2-4 a nos Iau o 7-9 o'r gloch.

Beth am ymuno i gael ychydig o ymarfer? Mae'n ffordd bleserus iawn o dreulio awr neu ddwy. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10, ynghyd â £2 y tro am brynawn neu gyda'r nos (mae paned a bisgedi i'w cael hefyd yn y pris yma!) Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Joe Large (Ysgrifennydd) ar Waunfawr 650179 neu gyda un o'r aelodau.

NEWID GYRFA. Hobi Owain Llŷr Williams, Tir-Na-Nog, Henllan, oedd deifio a phenderfynodd roi'r gorau i'w swydd fel cynlluniwr trefol yn Llundain er mwyn canolbwyntio ar yrfa fel deifiwr masnachol. Bu raid iddo gwblhau nifer o gyrsiau angenrheidiol - yn yr Alban a gogledd a de Lloegr - er mwyn cael y cymwysterau priodol. Ar hyn o bryd mae Llŷr yn gweithio o gwmpas Plymouth yn archwilio llongau a dociau i wahanol gwmnïau fel y Llynges Brydeinig. Mae Owain Llŷr yn ŵyr i Mrs Doris Roberts,

Dwyros, Waunfawr.

EISTEDDFOD BENTREF. Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 19 Chwefror 2011. Mwy o fanylion i ddilyn nes nes at y dyddiad.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR. Bydd Cyfarfod Blyneddol y Cyngor yn cael ei gynnal yn y Ganolfan nos Lun, 11 Hydref, am 7.15 o'r gloch yr hwyr.

CYDYMEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Steven Jones a'r teulu, Ty'n Cae, yn eu profedigaeth o golli tad Steven yn ddiweddar.

CYWIRO. Ymddiheuraf i Helen ac Olwen, Ty'n yr Onnen, am enwi eu diweddar dad, Mr Thomas John Griffith, yn anghywir yn yr Eco diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU. Dymunwn longyfarch Liam Evans, Tremallt, a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen ar gyrraedd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed yn ystod mis Medi. Llongyfarchiadau mawr i chi eich dau. Hyderwn eich bod wedi mwynhau eich diwrnod arbennig.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan iddynt oll: Jason Anderson, Fron Hyfryd; Mr Richard Rowlands, Stad Bryn Golau a Llywela Morris, Stad Tref Eilian.

Tra yn aros gyda'i merch a'r teulu yn Henllan, cymerwyd Mrs Doris Roberts, Dwyros, yn wael a bu'n rhaid iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd.

Croeso adref hefyd i Ms Nia Llwyd Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen, wedi iddi dderbyn triniaeth pen-glin.

Gobeithiwn eich bod i gyd yn gwella ac yn cryfhau bob dydd. **YN YR YSBYTY.** Anfonwn ein cofion at Mr Tecwyn Evans, Tremallt, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Cynhelir y cyfarfodydd canlynol ym mis Hydref

3: Mr Merfyn Jones

10: Y Gweinidog, y Parch Gwenda Richards

17: Parch Gwenda Richards.

Noder am 2.00 o'r gloch.

Cyfarfod Diolchgarwch.

24: Parch Gwenda Richards

31: Parch Dafydd Lloyd Hughes

Tachwedd 7: Mr T. Alun Williams.

Cartrefi ar gyfer gwirfoddolwyr Global Xchange

Allwch chi gynnig llety i ddau wirfoddolwr yn eich cartref, 1 o Brydain l o Namibia

Gall y gwirfoddolwyr rannu ystafell ond cael gwelyau ar wahân (gall y rhain fod yn welyau dros dro os bydd angen a gall GX eich helpu gyda hyn)

Darparu bwyd ar gyfer 3 phryd y dydd, gall gwirfoddolwyr goginio ar eu cyfer eu hunain

Croesawu'r gwirfoddolwyr i Wynedd, rhannu eich diwylliant a'ch ffordd o fyw.

Cefnogi'r gwirfoddolwyr yn ystod eu harhosiad, eu helpu os ydyn nhw'n sâl, eu helpu i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas a setlo'n gyffredinol i fywyd yng Ngwynedd.

Sut fath o deulu sy'n cynnig llety fel arfer?

Does dim teulu nodweddiadol sy'n cynnig llety! Rydym eisiau i'r gwirfoddolwyr gael profiad o fyw gyda theuluoedd sy'n cynrychioli Gwynedd, gallai hyn fod yn gwpl mewn gwaith sydd â phlant, person sengl, cwpl wedi ymddeol, unrhyw fath o deulu.

Beth fydd y gwirfoddolwyr yn ei wneud yng Ngwynedd?

Bydd y gwirfoddolwyr yn gweithio mewn elusennau a sefydliadau cymunedol lleol, byddant hefyd yn helpu pobl leol mewn digwyddiadau cymunedol.

Unwaith yr wythnos bydd pob pâr o wirfoddolwyr yn cynnal diwrnod addysgol ar gyfer y grwp ac aelodau'r gymuned. Bydd y gwirfoddolwyr yn brysur iawn gyda'u gweithgareddau grwp ac ni fydd raid i chi boeni am eu diddanu nhw.

Beth fydda i'n ei gael allan o hyn?

Byddwch yn derbyn £100 yr wythnos am bob pâr, i dalu am fyw, a biliau cadw ty.

Bydd Amy Jones a Brigit Rudd, arolygwyr y rhaglen yn lleol ar gael i helpu gydag unrhyw faterion yn ymwneud â'r gwirfoddolwyr yn ystod oriau gwaith

Bydd rhif argyfwng 24 awr yn cael ei ddarparu rhag ofn y bydd unrhyw faterion yn codi y tu allan i oriau'r swyddfa

Os na fydd pethau'n gweithio am ba reswm bynnag, rydym ar gael i ddod o hyd i ateb neu gartref gwahanol ar gyfer y gwirfoddolwyr.

Bydd y gwirfoddolwyr yn dod yn rhan o'r teulu gan helpu

gydag unrhyw dasgau o gwmpas y tŷ.

Mae'r gwirfoddolwyr wedi dilyn rhaglen recriwtio a hyfforddi drwyadl a fydd yn sicrhau eu bod yn hyblyg ac yn barod i fyw gyda'r teulu sy'n cynnig llety.

Am faint fyddai'r gwirfoddolwyr yn aros gyda mi?

Bydd y gwirfoddolwyr yng Ngwynedd rhwng 9 Hydref a 22 Rhagfyr 2010. Byddem wrth ein bodd yn dod o hyd i deuluoedd sy'n gallu cynnig llety i'r gwirfoddolwyr am yr 11 wythnos ond rydym yn deall na fydd rhai pobl yn gallu ymrwmo ar gyfer cyfnod mor hir. Gallwch gynnig llety am gyfnod sy'n gyfforddus i chi, rhwng 2 ac 11 wythnos.

Mae gen i ddiddordeb mewn cynnig llety i Wirfoddolwyr, beth yw'r cam nesaf?

Cysylltwch ag Amy Jones ar 07968094675 neu ebost: amy.jones@vso.org.uk Byddaf yn trefnu sgwrs sydyn dros y ffôn ac ymweld â'ch cartref ar amser cyfleus

ECO'R WYDDFA

Hoffech chi hysbysebu eich cwmni neu ddigwyddiad yn yr Eco? Cysylltwch ag: **Eifion Roberts, Llanberis (870740)**

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM Y GLO. Croeso cynnes iawn i bawb yn ôl i'r ysgol ar gychwyn tymor a blwyddyn newydd. Mae ein plant bach meithrin wedi ymgartrefu yn arbennig o dda - Keiran, Louis, Lewis, Sonny, Jac ac Eira.

Rydym yn croesawu nifer o hyfforddai NVQ newydd atom - Miss Evans, Miss Mareed ac Anti Diane. Gobeithiwn cewch fudd o'ch amser yma gyda ni. Mae Mr. Gareth Jones yn ymuno gyda ni yn rheolaidd yn nosbarthiadau Llydaw a Peris tra mae Mrs. Awen Bailey ar famolaeth. Ein dymuniadau gorau iddi - rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld gyda'r babi newydd yn fuan.

Mae dyddiadur y tymor yn prysur lenwi gyda nifer o ymweliadau a gweithgareddau ar y gweill. Mae y clwb cadw'n iach, dan ofal Dr Graham Thomas ac Andrew Setatree, wedi ei groesawu gyda brwdfrydedd gan y plant a'r staff. Diolch yn fawr i Lewis am droi allan i roi help llaw hefyd.

Gan nad oedd y tywydd wedi bod o'n plaid ddiwedd y tymor, dydd Iau cyntaf y tymor y cawsom ein mabolgampau. Diolch yn fawr i'n rhieni brwdfrydig am gynorthwyo ar y dydd. Cafodd pawb brynhawn pleserus yn yr haul.

Mae Cyfeillion yr ysgol wedi bwrw ati yn syth gyda gweithgareddau i godi arian. Rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion pawb aeth draw i Morrisons i bacio yn ddiweddar, gan godi swm sylweddol i'r gronfa. Diolch yn fawr iawn. DIOLCH. Dymuna Les a Hilda ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur. Hefyd diolch yn fawr i Jude, Nige a Cynth, heb anghofio Daniel a Dafydd, am wneud y penwythnos yn un

bythgofiadwy.

MARWOLAETH. Yn sydyn ond yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, dydd Sul, 22 Awst, bu farw Mr Michael Wynn Morris (Wyn), 2 Stryd Newydd. Yn enedigol o'r Cwm, roedd wedi ei fagu yn Dôl Afon ac yna yn Nhŷ Capel Mawr. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Gorffwys Caernarfon a rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Llanrug.

Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Gwynfor Williams, Eifion Williams a Gwenda Richards. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i ddau fab, Gwynedd a Dylan, y merched yng-nghyfraith, Susan ac Iva, ei wŷr a'i wyres, Emma a Jamie, ei frawd Hywel, ei chwaer Olwen, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

LLONGYFARCHIADAU i Elisabeth Hughes, 17 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed; i Sylvia Williams, Bwlch, yn 70 oed ac i Medi Jones, 13 Dôl Afon, sydd yn 40 oed. Dymuniadau gorau i'r tair ohonoch.

CYDYMDEIMLAD. Trist oedd clywed am ymadawiad Miriam Llywelyn ('Rallt Deg, gynt). Roedd Miriam yn adnabyddus ym myd llenyddiaeth gan iddi ennill mewn amryw o eisteddfodau. Roedd yn berson unigryw, llawn hiwmor, gyda dawn arbennig i ddweud stori ac yn bleser o'r mwyaf i fod yn ei chwmmi. Er i'w iechyd fod yn fregus ers rhai blyneddodd ni chollodd ei hiwmor na'i gwên siriol.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Vaughan, Rebeca a Dafydd a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth. DIOLCH. Dymuna Sylvia Williams, Bwlch, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed.

DATHLODD Margaret Williams, Bryn (neu Anti Margaret i blant Cwm a Llanrug), ben-blwydd arbennig ddechrau Medi. Mae hi eisau

diolch i'w theulu, cymdogion, ffrindiau a'i chydweithwyr am wneud yr achlysur mor arbennig iddi. Diolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd.

Steffan yn cydweithio ar CD

Mae Steffan o caffi Penceunant Isaf, Llanberis, yn mynd i'r busnes 'recordio' ac yn cyd-weithio gyda Label Anhrefn ar CD wedi ei gynhyrchu gan Rhys Mwyn. Yn dilyn taith gerdded hefo'r naturiaethwr Gerallt Pennant yn 2009 i weld y lili fe aeth Rhys Mwyn ati i hel pawb at ei gilydd a dod o hyd i gantores ifanc o Benrhosgarnedd, Llio Jones, i ganu'r gân, 'Lili Wen'.

Mae'r gwaith celf gan Jeb Loy Nichols - Americanwr sydd bellach yn byw yng Nghefn Coch ger Llanfair Caereinion - yn cynnwys

delwedd o'r Lili Wyddfa.

Bydd y CD yn cael ei dosbarthu o amgylch caffis bach unigryw Eryri fel Tŷ Mawr, Rhyd Ddu, Caffi Gwynant, Oriel Caffi Croesor, Inigo Jones, Oriel Tonnau, Pwllheli.

Artistiaid: Llio Jones, Lorraine Morley, Mair Thomas, Patrick Jones, Jeb Loy Nichols a Henry Priestman (The Christians). 'Snowdonia Songs', Label: Anhrefn Records. Rhif: Anhrefn 034

Dyddiad Rhyddhau: iTunes - Medi 27. Siopau cenedlaethol 4dd Hydref.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyndedig drwy Warant 3420271

GWASANAETH GOFAL CARTREF Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

*Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-
Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

Phillip Foulkes

**CONTRACTIWR
PLASTRO**

**Mewnol • Allanol
Drylining
Plastfyrddio Yn Ei Le**

**Ymgynghori Ac
Amcangyfrif Am ddim**



Tel. 07760393155

ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

O'R CYNGOR

Aeth blwyddyn arall heibio ac mae'n bleser adrodd bod gwaith i godi safon gweledol yr ardal yn symud ymlaen. Ar adegau mae'n anodd credu bod cymaint o rwystrau i'w goresgyn cyn cael cynlluniau ar waith, ond gyda dyfal donc a llawer iawn o gefnogaeth lleol mae'r darnau yn brysur ddod at ei gilydd. Fel mae pawb yn ymwybodol, mae un cynllun a oedd yn wir ddolur llygaid newydd ei gwblhau, sef creu mannau parcio ar y llain tir sy'n ffinio â Stad Y Cremlyn ar y briffordd drwy'r pentref.

Mae'n rhaid canmol pawb a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith, o ddylunwyr yn y cyngor at y contractwyr ei hunain. Rhaid hefyd ymestyn diolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am gyfraniad ariannol, does dim dwywaith fod hyn wedi galluogi'r gwaith fynd ymlaen heb fwy o oedi.

Trafferthion Dŵr

Gwelwyd cwblhau'r gwaith draenio yn y caeau sy'n amgylchynu Saron. Roedd cryn dipyn o ddiddordeb yn y gwaith yma drwy weld y pibellau mawr a oedd yn cael eu gosod yn danddaearol i gyfeirio'r dŵr wyneb o'r caeau a'r nant sy'n rhedeg tu cefn i Glanllyn yn ddirwysr i'r Cadnant. Bydd hyn yn esmwythau meddyliau trigolion Saron o'r broblem barhaol a oedd yn codi'n gyson ar amseroedd o law trwm. Yn ogystal bydd peth o'r pwysau mae dŵr wyneb yn ei roi ar y sustem garthffosiaeth yn lleihau.

Fe ddaeth cymorth ariannol sylweddol i'r cynllun yma drwy Gronfa Atal Llifogydd y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd tri rhan cynllun draenio rhan uchaf y pentref, sef y gwaith uchod, a'r draenio ffordd ger y Cae Pêl-droed a thu allan i Erw Bian, mae'r cynllun nawr wedi ei gwblhau yn gyd.

Bydd yn rhaid bod yn wylidwrs na fydd y dŵr ychwanegol yma, sydd yn cael ei

roi yn y Cadnant, ddim yn effeithio o gwbl ar ardal Penrhos.

Parcio Bro Rhos

O'r diwedd mae'r gwaith y gofynnwyd iddo i gael ei gwblhau o dan Gynlluniau Gwelliant Amgylcheddol Adran Dai, neu sydd erbyn heddiw yn cael ei rhedeg fel Cartrefi Cymunedol Gwynedd, wedi dod i frig y rhestr. Mae cais cynllunio wedi ei wneud am yr hawl i gario allan y gwaith yma a fydd, yn ôl pob golwg, wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y tacluso o flaen eu cartrefi o fudd mawr i'r trigolion. Diolch i'r cwmni newydd am weithredu heb oedi ar hyn.

Ffordd Osgoi

Yn ystod y flwyddyn fe ddaeth mwy o wybodaeth am y gwahanol lwybrau sy'n cael eu cynnig i'r ffordd yma. Mae cryn bryder gan rai o ardal Penrhos y bydd un o'r cynigion a fuasai'n rhedeg ger Carreg Goch yn amharu ar eu mwnderau, y llwybr sy'n cael ei ffafrio yma yw'r un a fuasai'n creu ffordd newydd o Dinas tu cefn i Bontnewydd a heibio Stad Ddiwydiannol Cibyn, wedyn yn dilyn eto fel ffordd newydd i ymuno â'r gylchfan bresennol ym Mhlas Menai. Dyma'r llwybr rwyf wedi ei gefnogi.

Buasai'r ddau lwybr yma, fodd bynnag, yn tynnu y drafndiaeth drom bron yn gyfan gwbl o'r B4366, sy'n rhedeg drwy ganol y pentref. Y cynnig olaf yw'r un ble buasai pont newydd yn cael ei hadeiladu dros Afon Seiont ym Mhont Rug ac uwchraddio'r ffordd bresennol at gylchfan Tyddyn Hen. Wedyn, pa ffordd fuasai'r drafndiaeth yn mynd? Drwy bentref Bethel fel yn bresennol, wrth gwrs. Ni fuasai hyn o fudd o gwbl ond yn gwaethygu pethau gyda'r cynnydd presennol sydd ar ein ffyrdd.

Mae cyfarfodydd agored wedi

eu cynnal yng Nghaernarfon a'r Bontnewydd gan ddylunwyr y cynllun, mae cyfle wedi bod hefyd yma ym Methel i gael golwg DVD o'r gwahanol lwybrau. Os oes unrhyw un eisiau golwg ar y DVD yma rhwch ganiad gan fod copi gennyf. Fodd bynnag dal i ddisgwyl am benderfyniad mae pawb. Efallai fod y toriadau mawr sydd ar y gweill yn creu oedi a bydd blynyddoedd lawer, os o gwbl, y cawn weld y gwelliannau yn dod i rym.

Cysgodfanau Bws

Mae cryn gwynion yn dod i law oherwydd cyflwr y ddwy gysgodfan, yn enwedig yr un ger yr ysgol. Cyfrifoldeb Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yw'r safleoedd yma, a phenderfyniad y cyngor yw fod dim atgyweirio am gael ei wneud oherwydd y difrod cyson sy'n cael ei wneud i'r gysgodfan. Ni all cyllideb unrhyw gorff sefyll costau fel hyn.

Fodd bynnag mae cais wedi ei wneud i'r cyngor i gysidro rhoi côt o baent iddynt, ac wedyn os bydd hyn yn cael llonyddwch yna bydd posibilrwydd o gael ei atgyweirio'n llwyr. Ond rhaid erfyn ar unrhyw un sy'n gweld unrhyw difrod yn cael ei wneud i adael imi wybod.

Ail Wynebu Ffyrdd

Mae cyflwr ffyrdd o amgylch yr etholaeth yn go dda, ond mae rhai o'r stadau eisiau sylw. Mae porfa dda o laswellt yn tyfu ar ganol rhai ffyrdd! Rwy'n dal i ddisgwyl rhaglen ar pa bryd mae gwaith o'r fath yn debygol o gael ei gario allan. Ar y foment tydi'r arwyddion ariannol ddim yn rhyw dda iawn – felly cawn weld be a ddaw ar hyn.

Diogelwch Ffyrdd

Mae'r cynlluniau a oedd ar y gweill nawr wedi eu cwblhau a'r sustem barcio newydd ger yr ysgol yn gweithio yn ardderchog. Ynghlwm â'r cynllun yma mae nifer o linellau melyn i'w gweld o amgylch y pentref, sef cyffyrdd Bro Rhos/Eglwys. Y rhan olaf o'r cynllun yma yw gosod llinellau melyn ar

y gyffordd sy'n arwain i Saron. Mae'r parcio sy'n cymryd lle yn y fan hyn yn destun pryder mawr. Hefyd drwy ystyried pryder gan drigolion Saron mae cais wedi ei wneud i gael awgrymiadau ar beth i'w wneud ar gyffordd Stryd Ganol a Stryd Bach. Ar adegau yn y fan yma ble mae'n amhosib cael mynediad i Stryd Bach.

Neuadd Goffa

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i gyn-swyddogion ac aelodau Pwyllgor gwaith y Neuadd Goffa am eu gwaith dros gyfnod maith. Ond newid sy'n dod i bob sefydliad yn ei dro ac mae criw newydd wrth y llw. Dymunaf pob llwyddiant iddynt yn eu gwaith ac, yn ôl y gweithgareddau sydd ar y gweill, mae'r rhagolygon yn ardderchog.

Arholiadau

Rhaid tynnu sylw unwaith eto at y gwaith caled sydd wedi ei wneud gan bobl ifanc y fro yn yr ysgol a choleg, mae canlyniadau eu arholiadau yn ganmoladwy dros ben. Pob dymuniad da am y dyfodol.

Buaswn yn ddiolchgar dros ben o dderbyn unrhyw awgrymu ar welliannau pellach yr hoffwch weld yn cael eu cyflawni. Rwyf ar gael unrhyw amser, fel a ganlyn – 01284 67066 neu drwy e-bost huw.hughes@lineone.net neu, wrth gwrs, mae croeso i chwi alw draw.

HUW PRICE HUGHES
Cynghorydd Sir Plaid Cymru
Bethel a Seion



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Cymry'r Rhyfel Mawr. Ar-Lein

Sioe Deithiol Amgueddfa Lechi Llanberis 2.10.2010

A oes unrhywbeth yn eich teulu sy'n dod o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf? Tybed a oes dyddiadur a ysgrifennwyd gan eich hen-daïd yn gorwedd mewn bocs yn rhywle? Neu efallai casgliad o lythrau a roddwyd wedi'i gadw yng nghefn rhyw ddrôr amser maith yn ôl?

Os felly, yna dewch i Sioe Deithiol Cymry'r Rhyfel Mawr Ar-lein Amgueddfa Lechi Cymru, Hydref 02, 2010.

Dyma gyfle unigryw i ddod â'ch trysorau teuluol o'r Rhyfel Byd Cyntaf i gael eu hasesu a chofnodi er mwyn eu rhoi ar gof a chadw ar gyfer y dyfodol. Bydd arbennigwr ar gael i archwilio'ch creiriau o'r Rhyfel Mawr ac i rhoi gwybodaeth am y ffordd orau i'w diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

Mae cyfres o'r sioeau teithiol wedi'u trefnu ar draws Cymru yn ystod yr Haf a'r Hydref eleni. Wedi i'r deunydd cael ei gasglu drwy'r wlad, bydd popeth yn cael ei gatalogio ac yna fe'i roddir ar gael i bawb trwy wefan Casgliad y Werin.

Dau fachgen sy'n edrych mlaen i fynd a'u casgliadau i'r Sioe Deithiol ydi cefndryd Tudur Williams o Gwalchmai a Jac Williams o Lanfairpwll. Bydd Tudur yn mynd a cardiau post ysgrifennodd ei Hen Hen Daid, William Williams o Field Street Llangefni at ei ferch Dorothy (hen Nain Tudur) yn ystod ei amser yn y rhyfel (Tudur's Great Grandmother) Hefyd bydd yn mynd a dau lyfr crefyddol y cafodd y milwyr yn ystod eu amser yn y rhyfel.

Bydd Jac yn mynd a "Treat" box

ei Hen Hen Ewyrth hefo fo! Roedd y bocs yn anreg i Phillip Williams, o Gaergybi dros y Nadolig 1914. Bu Phillip - Zapper yn y Royal Engineers - a'i ddau frawd - Griffith a William Williams yn rhan o frwydyr y Somme ac yn wyrthiol bu'r tri ddychwelyd yn saff.

Meddai Jac: "Mae'n anhygoel i feddwl fod cymaint o hanes yn perthyn i'r bocs bach yma. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i gael clywed mwy amdanynt yn ystod y Sioe."

Sefydlwyd Cymry'r Rhyfel Mawr Ar-lein gan Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd ac fe'i hariannir gan JISC, y gorfforaeth Brydeinig sy'n arwain y ffordd i ddangos sut i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i gefnogi addysg ac ymchwil. Mae'r prosiect yn rhoi'r cyfle i chi rannu profiadau eich teulu ac i gofio am aberth eich cyndeidiau yn y rhyfel yr oedden nhw'n gobeithio 'fyddai'n dod a phob rhyfel i ben'. Mae diddordeb mewn unrhyw ddeunydd o'r cyfnod sy'n berthnasol i brofiadau'r Cymry yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mewn atgofion a straeon a basiwyd i lawr y cenedlaethau.

Os na allwch ddod i'r Sioe Deithiol, beth am gyfrannu i'r prosiect yn eich amser eich hunain? Os oes sganiwr neu gamera digidol gennych, gallwch gyfrannu delweddau digidol o'ch eitemau heddiw drwy fynd i'r wefan www.rhyflemawr.com ac mae llawer mwy o wybodaeth ar gael yma hefyd.



Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

YSGOL YRRU ELIDIR DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

Jacqueline Williams

Gwers Gyntaf, 2 awr am bris 1

POSH PAWS



TACLUSO CWN Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com



**BOCS O
FFRWYTHAU A LLUSIAU
£10.** Wedi ei ddanfon
AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 079990926484

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU

Gwaredu Data

ANTUR

**WAUNFAWR
AILGYLCHU**

Llarpio Dogfennau Cyfrinachol

www.anturwaunfawr.org

ffôn: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd Lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Parhad Newyddion Llanberis

CAPEL Y RHOS

Ar Fedi'r 4ydd, gyda'r Gweinidog yn gweinyddu, priodwyd Mr. Marvin Pritchard Bro Rhyddallt, Llanrug a Miss Nia Lloyd o Gaernarfon. Llongyfarchiadau cynnes iawn a phob dymuniad da i'r dyfodol i'r cwpwl ifanc.

CASGLIAD PACISTAN

Yn dilyn yr oedfa fore Sul, Medi 26ain o dan arweiniad y Parch. Bryn Williams, cynhaliwyd paned a bisged yn y festri. Gwnaethpwyd casgliad arbennig tuag at bobl Pacistan sy'n dioddef yn dilyn y llifogydd enbyd. Casglwyd dros £400 yn ystod y gwasanaeth a diolchir i bawb am eu cefnogaeth. Mae cyfle i unrhyw un gyfrannu eto os yn dymuno.

Oedfaon mis Hydref

Hydref 3 - Parch. Marcus Robinson y Gweinidog

Hydref 10 - Parch. Ddr Elwyn Richards

Hydref 17 - Diolchgarwch y plant gyda'r Gweinidog yn arwain

Hydref 24 - Oedfa dan ofal yr aelodau

Hydref 31 - i'w threfnu

MERCHED Y WAWR.

Estynnwyd croeso cynnes iawn i nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Menna Williams. Braf oedd gweld Olwen yn bresennol wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â theulu'r ddiweddar Eileen Jones, un a fu'n aelod cyson o'r gangen. Cydymdeimlwyd yn ddwfn iawn hefyd â Myfanwy ar golli mam-yng-nghyfraith a'i mam yn ystod y gwyliau.

Cynhelir 'Jambori Jam' ym Mhlas Newydd ar 1 a 2 Hydref -



Panad a bisged wedi'r oedfa yng Nghapel y Rhos

cyfle i drafod a blasu jam!

Cynhelir diwrnod Celf a Chrefft ar 30 Hydref yng Nghanolfan Tregarth o 10.00 y bore hyd 4.00 y pŵn. Pris £15.

Gan mai Arfon fydd yn noddi Sioe Frenhinol 2011, cynhelir cyfarfod yn Festri Capel Cysegr, Bethel, ar 21 Hydref.

Gŵr gwadd ein cyfarfod agoriadol oedd Gareth Roberts, yn enedigol o Lanrug a 'Cerdded at Iechyd' oedd ei neges gynhwysfawr. Wedi llawdriniaeth fawr ar ei galon sylweddolodd Gareth mor amhrisiadwy yw iechyd a bod cerdded yn hwb fawr i gadw'n iach. Mae'n anelu at gerdded o gwmpas 1,000 milltir y flwyddyn, ynghyd â beicio a rhedeg! Llwyddodd i gerdded y Ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer a chasglu £7,000 tuag at Ymchwil y Galon. Cwblhaodd y cwrs mewn 3 diwrnod, yn union fel y Rhufeiniaid ganrifoedd yn ôl.

Pwysleisiodd a diolchodd i Phyllis Elis am gyflwyno'r syniad o roi llwybrau'r plwyf ar

fap. Y map cyntaf oedd llwybrau Plwyf Llanddeiniolen ac, yn ôl Gareth,

'Mae sawl rhyfeddod daearegol ar ein teithiau trwy'r plwyf.' Mae hanesion y plwyf, o Oes yr Iâ, megis Craig Fawr Rhiwlas - paradwys i genedlaethau o blant; y Ffordd Rufeinig - mae modd dilyn rhan ohoni ar Gylchdaith Bethel rhwng Pont Charli a'r hen Reithordy, Llanddeiniolen; Ffynnon Cegin Arthur, Penisarwaun, a adeiladwyd yn 1850au, lle tyrrai tua 200 o bobl yn ddyddiol i brynu'r dŵr a feddai lawer o rinweddau meddygol.

'Adeiladwyd y llwybrau cyhoeddus i alluogi pobl i fynd a dod i'r capeli, eglwysi ac ysgolion. Dyna yw gwreiddiau'r llwybrau yr ydym yn eu defnyddio - 50 milltir ohonynt. Mae dros 100 ohonynt ym mhlwyf Llanrug gyda digonedd o ryfeddodau a hanesion diddorol i'w darganfod.'

Y mae Gareth yn brysur rŵan yn mapio llwybrau Plwyf Llanengan. Y neges fawr yw 'Cerddwch lwybrau eich plwyf i'w cadw'n agored i'r genhedlaeth sy'n dod a thrwy hynny hybu corff iach - Cerdded at Iechyd'.

Diolchwyd i Gareth gan Menna am noson hynod o ddifyr a byrlymus.

Diolch hefyd i Meirwen, Gwenda a Mair am y baned. Enillydd y raffl oedd Ann Lloyd.

Nos Fawrth, 12 Hydref, cawn sgwrs am Y Caban, Brynrefail, gan Eluned Davies. Croeso i aelodau newydd.

NEWID FY MEDDWL

Mae dwy gamp nad oes gennyf fawr o ddiddordeb ynddynt - tenis a golff. Ond wedi gweld perfformiadau rhyfeddol Nadal, Federer a Murray i raddau yn ddiweddar rwyf erbyn hyn yn cyd-wyllo gyda Mary, sy'n ddilynwr brwd. Rhaid cyfaddef hefyd fod yr onglau camerayddol hefyd yn arbennig. Yn yr un modd rwy'n edrych ymlaen i Gwpan Ryder ac elfen gystadleuol y gystadleuaeth honno. Cyfle i roddi Cymru ar y map go iawn.

LLONGYFARCHION BRYN



wedi cychwyn ar ei swydd newydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cyn hyn roedd yn weinidog ym Mhwlheli a'r cylch yn dilyn cyfnod yng Ngholeg y Bala fel Cyfarwyddwr Gwaith Plant ac Ieuencid.

Dechreuodd ei yrfa fel gweinidog ym Mryn Du, Môn, cyn symud i Gapel y Groes, Wrecsam.

Dyma'r ail o'r pump gweinidog a fagwyd yng Nghapel Pontrhythallt (Capel y Rhos, bellach) i lenwi'r swydd hon. Bu'r Parch Dafydd Owen, Llys Eryri gynt, yn Ysgrifennydd am gyfnod hir. Mae Bryn yn dilyn y Parch Ifan Roberts yn y swydd, un arall â chysylltiadau agos â bro'r 'Eco'; wedi ei fagu ym Mrynrefail ble roedd ei dad yn weinidog.

Bydd Bryn yn parhau i fyw ym Mhwlheli gyda Nia, ei wraig, a'i blant Robin, Elin a Morgan.

Y MYNYDD GWEFRU ELECTRIC MOUNTAIN LLANBERIS

**Nos Wener
Hydref 15ed. am 7.30 yh**

NOSON Y CORAU

**yng nghwmni
Côr Meibion Llanfair
Ym Mualt (Builth)**

Gyda **Côr Meibion Dyffryn Peris**

Côr Merched Lleisiau Lliwedd

Parti Plant Ysgol Dolbadarn Llanberis

**PRIS MYNEDIAD- £5. Oedolion • £3. Plant a Phensiynwyr
Elw y noson tuag at Ambiwylans Awyr Cymru**

WEDI YMDDEOL

AC YN BYW YN LLANRUG?

Beth am gêm o snwcer neu denis bwrdd yn y
Sefydliad Coffa yn y p'nawn?
Diddordeb? Cysylltwch â:

Meurig ar 674497 neu Goronwy ar 674839

CHWARAEON

ANRHEGU TYMOR LLWYDDIANNUS

Roedd rhai o gricedwyr Bro'r Eco yn cael cryn sylw yn noson wobrwyo Clwb Criced Bangor yn ddiweddar. Rhoddwyd lle anrhyddedus i Peter Evison o Gae Hopsyn, Caeathro, am gyflawni 40 mlynedd di-dor fel chwaraewr i'r clwb. Mae hyn yn record anhygoel, yn cynnwys ymhell dros 1,200 o gemau i'r clwb. Bu'n gapten ar y clwb a hefyd yn gapten ar dimau Sir Gaernarfon a Gogledd Cymru.

40 mlynedd yn ôl daeth Peter i'r ardal o Stockport i weithio yn adran cynllunio'r Cyngor Sir, swydd y mae ynddi o hyd. Ymunodd â'r clwb criced, a hefyd chwarae fel cefnwr i dîm pêl-droed Llanberis am sawl tymor. Rhwng 1970-1974 roeddwn i yn y de ac felly rhyw hanner tymhorau gefais yn chwarae yn Nhŷ Newydd. O 1975 ymlaen bu'r ddau ohonom yn bartneriaid di-dor nes i mi ymddeol o'r gêm wedi tymor 2006.

Am nifer o'r tymhorau roeddem yn agor y batîo gyda'n gilydd a chawsom bartneriaeth o dros 100 rhediad dair gwaith. Gyda'n gilydd roeddem ar y llain pan sgoriodd Peter a minnau ein 100 cyntaf i'r clwb. Yn ei ail dymor (1971) Peter enillodd dlws prif fatiwr y Gogledd. Ar wahân i'r batîo roedd yn droellwr celfydd a chipiodd nifer o wicedi. Yn y tymhorau diwethaf bu dawn ac amynedd Peter yn allweddol i ddatblygu yr ieuenctid yn yr ail dîm.

Mae Peter yn uchel ei barch hefyd fel hyfforddwr, yn wir ef yw un o'r ychydig yn y gogledd sy'n dal y lefel uchaf o hyfforddi. Mae'n cynnal cyrsiau hyfforddi ac asesu ledled y gogledd. Yn y rôl yma bu'n amhrisiadwy i'r clwb. A welwn dymor 41? Cawn weld.

Gorffennodd y ddau dîm yn ail yn eu cynghreiriau eleni - y Brif Adran ac Adran 2. Yn sgîl eu safle bydd yr ail dîm yn dychwelyd i Adran 1 y tymor nesaf ac yn wynebu timau cyntaf nifer o glybiau. Capten llwyddiannus yr ail dîm oedd Colin Meek o Lanberis. Creodd awyrgylch braf ymysg y chwaraewyr ac edrychwn ymlaen i'r tymor nesaf. Dau a ddatblygodd yn yr ail dîm oedd Ian Morgan (Bethel) fel bowliwr a Siôn Evans (Penisarwaun) fel batîwr.

Bu traddodiad o fowlwyr araf ym Mangor a'r ddau droellwr -

yr efeilliad 'spin' - a ddaeth i'r brig. Cipiodd Iwan Roberts (Llanrug) y troellwr llaw chwith 43 o wicedi, dwy yn llai na'i bartner, Peter Banham. Yr uchafbwynt i Iwan oedd cipio 5-17 mewn 10 pelawd yn erbyn Yr Wyddgrug, un o geffylau blaen y gynghrair.

Llongyfarchiadau iddynt ac ail gyflwynir yr un croeso i unrhyw un â diddordeb i ymlwybro draw i Dŷ Newydd.

ARWYDDION CYNNAR SIOMEDIG

Gyda tafod mewn boch cyfeiriais fod bron iawn mwy o gynghreiriau na thimau pêl-droed eleni. Os rhoi 'blaenoriaeth' neu statws, bydd angen dyfarnwyr a llumanwyr yn y cynghreiriau uwch a'r cwpanau. O'r herwydd ni chwaraewyd rhai gemau eisoes - pump yr wythnos diwethaf - gan gynnwys un o gemau Bethel - gan nad oedd dyfarnwr ar gael. Mae'n edrych yn ddu ar glybiau Cynghrair Arfon a'u tebyg.

AI FLYNN YW'R ATEB?

Mae'n ymddangos fod y mwyafrif o ddilynwyr y bêl gron yng Nghymru wedi cael eu dymuniad gyda ymadawiad John Toshack. Er bod yr amseriad ar gychwyn pencampwriaeth yn anghyfleus, credaf fod y

LLEWOD LLANRUG YN DENU



Cyflwyno medalau i dîm dan 7 oed Llanrug

Cynhaliwyd Twrnament Pêl-Droed Llewod Llanrug ar gaeau Ysgol Brynrefail yn ystod y mis. Am y tro cyntaf yn eu hanes, bu'n rhaid cynnal y gystadleuaeth dros ddau ddiwrnod oherwydd fod cymaint o dimau eisiau cystadlu. Yn wir, roedd rhai o'r timau wedi teithio cryn bellter i fod yn rhan o'r gystadleuaeth hynod boblogaidd, yn cynrychioli Môn, Aberdaron, Prestatyn a hyd yn oed ar draws y ffin o Gaer. Yr oedd nifer helaeth o dimau lleol yn cystadlu hefyd, gan gynnwys holl dimau pêl-droed Llewod Llanrug, yn fechgyn a genethod. A genethod dan 14 oed Llanrug oedd yr unig dîm 'cartref' i ennill.

Dywedodd Richard Robinson, Cadeirydd Llewod Llanrug fod y clwb yn un hynod o lwyddiannus, gyda dros ddau gant o fechgyn a genethod yn aelodau; cynnydd o ddeg ar hugain ers y llynedd. "Mae cynnal yr holl dimau hyn yn

golygu llawer o ymroddiad gwirfoddol ar ran y rhieni a'r hyfforddwyr," meddai, "ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cymorth yn trefnu'r Twrnament blynyddol. Hoffwn ddiolch yn arbennig i noddwyr y gystadleuaeth eleni, sef Ysgolion Llanrug a Brynrefail, Y Dyn Cig, Penningtons, Bws Padarn, Llandis Llanrug ac Academi Karate Chris Pritchard. Heb gyfraniad y noddwyr hyn byddai cynnal y clwb yn gosod pwysau ariannol trwm ar y rhieni."

Aeth Richard ymlaen i son am obeithion y clwb yn y dyfodol, a'r angen am gefnogaeth gref gan yr holl rieni a chyfeillion eraill o fewn y pentref. Mae'n braf cael canmol sefydliad sy'n gwneud cymaint i gynnal diddordeb plant y pentref mewn maes arbennig, a llongyfarchwn hwy am eu ffyddlondeb i'w hymarferion a'u gemau. Gyda dymuniadau gorau i bawb am y tymor sydd newydd ddechrau.

penderfyniad iawn wedi ei wneud. Bu cryn ddyfalu am olynnydd, yn enwedig a ddylid cael 'tramwrwr' fel Martin O'Neill i gymeryd yr awenau. Speed, Coleman, Hartson,

Saunders... a Giggs. Yn y diwedd penodwyd Flynn am ddwy gêm.

Cytunaf â'r dewis ond nid ei hyd. Credaf mai Flynn sydd gan y cyfle gorau i arwain Cymru at y rowndiau terfynol. Ef sydd wedi llywio gyrfaedd rhyngwladol nifer helaeth o'r garfan hyn erbyn hyn. Mae ganddo well sgiliau cyfathrebu na Toshack, ac wedi dilyn gyrfa ar y 'ffâs' go iawn. Ymdebygaf ef i Clive Rowlands, gyda'r apêl at y galon yn ogystal â'r pen.

Os gall gipio 4 pwynt o'r ddwy gêm nesaf, yna ail ymddangosiad Ramsey a Collinson mae cyfle o hyd. Rhyw grŵp pawb guro'i gilydd yw hwn. A phwy a wŷr na fydd y rhai a bwdodd gyda John Toshack - Koumas a Collins - yn enwedig yn dychwelyd. A beth fydd dyfodol Giggs - fel Henson - yn y crys coch.

Fe all dyfodol pêl-droed Cymru fod yn ddibynnol ar y parch sydd gan pob chwaraewr i Flynn. Gobeithio y byddwn yn canu clodydd y 'dewin bach' wedi'r ddwy gêm nesaf.

RHEDWYR MYNYDD IFANC Y FRO



Enillwyr adrannau plant y gynghrair rhedeg mynydd nos Fawrth a gynhaliwyd dros fisoedd yr haf. Roedd yr holl enillwyr o fro'r 'Eco' - pentrefi Waunfawr, Dinorwig, Llanrug a'r Ceunant. Llongyfarchion hefyd i Kieron Forrest am ennill pencampwriaeth dan 10 oed gogledd Cymru yn ystod Medi.